

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

PC20: Aseidiad o Anghenion Sgiliau

Cynllun i'w archwilio
gan y cyhoedd

Chwefror 2025



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio
a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live,
work and discover**

Adolygwyd y Papur Cefndir hwn yn 2025 ac fe'i diwygiwyd fel a ganlyn fel bod y Papur Cefndir yn gyfoes at ddibenion ymgynghori ynghylch y fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Atodiad 1 i Bapur Cefndir 20 Asesiad o Anghenion Sgiliau - Chwefror 2025

1. Cyflwyniad

Pwrpas yr Atodiad hwn yw ystyried newidiadau perthnasol i'r sector addysg sydd wedi digwydd ers llunio Papur Cefndir 20, gan gyfeirio'n benodol at yr angen am dir at ddibenion addysg uwch yng Nghonwy ac felly i bennu a yw canfyddiadau'r Papur Cefndir yn parhau i fod yn briodol fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Prif gasgliad Papur Cefndir 20 oedd yn dilyn ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid allweddol yn y sector addysg, nid oedd dystiolaeth i awgrymu bod angen dyrannu tir yn y CDLIN at ddibenion addysg uwch. Mae adrannau canlynol yr Atodiad hwn yn archwilio'r casgliad yng nghyd-destun y prosiectau a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd ers cyhoeddi'r papur cefndir.

2. Canfyddiadau o'r Asesiad o Anghenion Sgiliau sy'n berthnasol i'r CDLIN

Un o'r problemau a nodwyd ym Mhapur Cefndir 20 o ran sgiliau a recriwtio, oedd bod trosiant uchel yng Nghonwy a Gogledd Cymru o ran unigolion (ar bob lefel sgiliau) o fewn y sector iechyd ehangach - gan gynnwys prinder meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal proffesiynol. Gan ystyried canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Sgiliau, fel y nodwyd mewn trafodaethau gyda'r prifysgolion (Bangor a Wrecsam), roedd un o brif gyfyngiadau'r sector iechyd yn ymwneud â lleoliadau strwythuredig a phrentisiaethau. Dyma'r unig sector lle y gallai darparwyr addysgol allweddol ystyried cyfle posibl ar gyfer cyfleuster Addysg Uwch newydd (yn ddelfrydol ysgol / canolfan feddygol newydd) o fewn Sir Conwy. Ond, ar y pryd, nodwyd y byddai angen i ysgol feddygol newydd weithio mewn partneriaeth gydag ysbyty cyfagos a derbyn cefnogaeth gan gyflogwyr y GIG a allai fod yn anodd iawn o ystyried bod yr ysbytai wedi'u lleoli ym Mangor, Bodelwyddan a Wrecsam.

3. Ysgol Feddygol Gogledd Cymru

Er efallai na fyddai modd cynnal menter o'r fath yn Sir Conwy ei hun oherwydd y cyfyngiadau a nodwyd eisoes, dylid nodi y gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r prosiect yn gyffredinol, gyda chysiau meddygaeth pedair blynedd a phum mlynedd yn cael eu cynnig ym Mhrifysgol Bangor yn awr, ar gyfer graddedigion a rhai sy'n gadael ysgol.

Dechreuodd carfan gyntaf y myfyrwyr meddygol ym Mhrifysgol Bangor yn 2024 gyda 80 o fyfyrwyr yn cofrestru. Roedd y myfyrwyr yn cynnwys cymysgedd o rai'n gadael ysgol a graddedigion. Dyma'r garfan gyntaf o fyfyrwyr meddygol sy'n cael eu holl hyfforddiant yng Ngogledd Cymru, a'r bwriad yw y bydd nifer y myfyrwyr yn cynyddu'n raddol i gyrraedd 140 o 2029-30 ymlaen.

4. Casgliad

Mae casgliad Papur Cefndir 20 yn parhau i fod yn berthnasol gan nad oes angen neilltuo tir ar gyfer cyfleuster Addysg Uwch newydd yng Nghonwy, o ystyried bod Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn weithredol ym Mhrifysgol Bangor yn awr.

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	1
	Cefndir a Chwmpas y Gwaith	1
	Sefydliadau Addysg Uwch / Bellach	2
	Strwythur yr Adroddiad	3
2.0	Cyd-destun	4
	Cyflwyniad	4
	Cenedlaethol	4
	Isranbarthol	5
	Lleol	5
3.0	Cyd-destun Demograffig a Sgiliau	7
	Cyflwyniad	7
	Demograffeg	7
	Economeg a Sgiliau	10
	Demograffeg Busnes	11
4.0	Prosiectau Trawsnewid Allweddol	19
	Prosiectau Datblygu	19
	Crynodeb	24
5.0	Arolwg Anghenion Sgiliau	26
6.0	Cyflenwad Cyfredol o Sgiliau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghonwy	31
	Cyflwyniad	31
	Addysg Bellach	31
	Addysg Uwch	35
	Ymgynghoriad â Darparwyr Addysg	40
	Cyfleoedd yn y sector iechyd	41
	Casgliad	43
7.0	Alinio Galw a Chyflenwad Sgiliau	44
8.0	Casgliadau ac Argymhellion	63

1.0

Cyflwyniad

1.1

Penododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy [CBSC] Lichfields i gynnal Asesiad Anghenion Sgiliau ar gyfer y Sir yn 2018. Mae hyn yn dilyn astudiaethau cynharach a gynhaliwyd gan Lichfields ar ran CBSC, gan gynnwys Adolygiad Tir Cyflogaeth [ELR] ac Astudiaeth Ysgogwyr Twf.

Cefndir a Chwmpas y Gwaith

1.2

Mae Strategaeth Economaidd 2017-2027 CBSC (2017) yn nodi uchelgais y Cyngor i "sefydlu presenoldeb Addysg Uwch ymroddedig yn y Sir". Mae'r Cyngor yn archwilio'r syniad o ddarpariaeth Addysg Uwch benodol yng Nghonwy i helpu i ysgogi twf economaidd. Mae CBSC yn gobeithio archwilio a fydd cynnig o'r fath yn denu trigolion a myfyrwyr newydd (o'r DU ac yn rhyngwladol) i'r ardal, ac a fyddai hyn yn creu galw am economi gyda'r nos ac yn cefnogi busnesau lleol i dyfu ac arloesi.

1.3

Ar hyn o bryd, darperir ar gyfer mwyafrif anghenion Addysg Uwch trigolion a busnesau Conwy mewn mannau eraill. Mae prif ddarparwyr Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru a gerllaw yn cynnwys prifysgolion Bangor, Glyndŵr a Chaer. Mae gan Goleg Llandrillo (fel rhan o Grŵp Llandrillo Menai) ganolfan AU yn Llandrillo-yn-Rhos, wedi'i leoli yn Sir Conwy, er mai sefydliad Addysg Bellach ydyw yn bennaf.

1.4

Felly nid oes gan Sir Conwy gyfleuster na champws Addysg Uwch penodol. Y cynnig yw y gallai darpariaeth o'r fath helpu i ysgogi twf economaidd yn y Sir trwy ddenu trigolion newydd i'r ardal, gan helpu i ysgogi'r galw am economi gyda'r nos, wrth gefnogi busnesau lleol i dyfu ac arloesi.

1.5

Yn ystod y gwaith ELR a wnaed gan Lichfields (a nododd ofynion Dosbarth B Conwy yn y dyfodol), roedd yn amlwg bod economi Gogledd Cymru yn debygol o gael ei hybu'n sylweddol ar draws sectorau twf allweddol a thrwy brosiectau datblygu wedi'u rhaglennu ar draws yr isranbarth ehangach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

1.6

Archwiliwyd hyn ymhellach yn y Diweddariad o Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy (2019), a ddaeth i'r casgliad bod economi Conwy yn debygol o elwa o'r sectorau twf allweddol a phrosiectau datblygu canlynol:

1 Sectorau twf allweddol:

- a Ynni a'r Amgylchedd;
- b Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch;
- c Adeiladu;
- d Creadigol a Digidol;
- e Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- f Twristiaeth a Lletygarwch; a,
- g Bwyd a Diod.

2 Prosiectau Datblygu:

- a Morlyn Llanw Bae Colwyn;
- b Sefydliad Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy;
- c Parc Gwyddoniaeth Menai;

- d Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios;
- e Parc Adfer; a,
- f Chanolfan Ynni Wrecsam.

- 1.7 Mae'r sectorau allweddol a'r prosiectau datblygu hyn yn debygol o gynhyrchu galw sylweddol am sgiliau; fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth leol ar natur benodol y gofynion sgiliau hyn ac ychydig o dystiolaeth gadarn sydd yna ynghylch i ba raddau y mae gan Gonwy (a Gogledd Cymru yn fwy cyffredinol) y gallu i ymateb i'r galw hwn.
- 1.8 Bwriad yr adroddiad hwn yw archwilio'r anghenion sgiliau sy'n debygol o godi o'r sectorau a'r prosiectau twf hyn ac mae'n asesu pa mor addas yw'r sgiliau lleol sydd ar gael yng Nghonwy ar hyn o bryd. Y bwriad yw y bydd hyn yn helpu CBSC i fanteisio ar gyfleoedd twf economaidd yn y dyfodol ac i helpu i asesu a ellir cyflwyno achos ar gyfer presenoldeb Addysg Uwch newydd, ymroddedig yn y Sir.
- 1.9 Felly, cwmpas yr adroddiad hwn yw asesu'r anghenion sgiliau sy'n codi o'r sectorau twf allweddol a'r prosiectau datblygu a raglennwyd ar gyfer Gogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf, gyda phwyslais arbennig ar sut mae hyn yn cyd-fynd â'r cyrsiau Addysg Uwch sydd ar gael yn yr is- rhanbarth ac a ellid cyfiawnhau cyrsiau newydd a chyfleusterau AU yng Nghonwy.
- 1.10 Mae'r Asesiad hwn yn adolygu dogfennau presennol gan gynnwys asesiadau sgiliau sector-benodol, Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru a Chynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae hefyd yn dibynnu ar gasglu data sylfaenol o ymgynghoriadau Lichfields gyda datblygwyr prosiectau allweddol ac arolwg o anghenion sgiliau busnesau lleol.

Sefydliadau Addysg Uwch / Bellach

- 1.11 Mae The Mackinnon Partnership, sy'n arbenigwyr ar ddadansoddi'r farchnad lafur yn cynnwys addysg a chyflogadwyedd, wedi ymuno â Lichfields ar y prosiect hwn. Mae The Mackinnon Partnership wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth sgiliau lleol, gan gynnwys ymgynghori â darparwyr addysg lleol gan gynnwys:
- Coleg Llandrillo - Mae darpariaeth addysg bellach Conwy yn nwylo Coleg Llandrillo, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai [GLIM], sefydliad addysg bellach mwyaf Cymru. Mae Coleg Llandrillo yn cynnig dros 4,000 o gyrsiau amser llawn a rhan-amser, tra bod gan y GLIM ehangach 23,000 o fyfyrwyr.
 - Prifysgol Bangor - Mae gan Brifysgol Bangor tua 11,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y brifysgol ar hyn o bryd, gyda 650 o staff addysgu wedi'u lleoli mewn 23 o Ysgolion Academaidd.
 - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam - Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cynnig graddau israddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal â chysiau proffesiynol. Roedd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam 6,415 o fyfyrwyr yn 2016/17.
- 1.12 Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r sgiliau cyfredol a chysiau hyfforddiant a gynigir yn Sir Conwy, a dadansoddiad o ystadegau addysg a gedwir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Ystadegau Cymru ac asiantaethau eraill. Mae asesiad demograffig hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i amlygu sut y disgwylir i nifer y preswylwyr rhwng 16-24 oed yng Nghonwy newid yn y dyfodol.

Strwythur yr Adroddiad

1.13

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- 1 Cyd-destun Polisi (Adran 2.0): Adolygu'r dogfennau presennol ar anghenion sgiliau yn Sir Conwy a Gogledd Cymru;
- 2 Cyd-destun Demograffig a Sgiliau (Adran 3.0) - Dadansoddi newidiadau demograffig rhagamcanol ar gyfer Conwy a Gogledd Cymru yn fwy cyffredinol, gan asesu cyfraddau cadw myfyrwyr;
- 3 Prosiectau Trawsnewid Allweddol (Adran 4.0) - mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y datblygwyr / rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r saith prosiect datblygu sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru i ddeall eu gofynion sgiliau a llafur cyfredol ac yn y dyfodol;
- 4 Arolwg Anghenion Sgiliau (Adran 5.0) - Yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r Arolwg Anghenion Sgiliau a geisiodd ddeall y lefelau a gofynion sgiliau cyfredol ac yn y dyfodol;
- 5 Cyflenwad cyfredol o sgiliau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghonwy (Adran 6.0) - Amlinellu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr addysg lleol, cynrychiolwyr sgiliau ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru;
- 6 Aliniad rhwng y cyflenwad a'r galw am sgiliau lleol (Adran 7.0) - mae'r adran hon yn nodi argymhellion ar ble mae bylchau a phrinder sgiliau penodol y gellid mynd i'r afael â hwy yn Sir Conwy a'r rhanbarth ehangach; a,
- 7 Casgliadau Cyffredinol a Goblygiadau Polisi (Adran 8.0).

Cyd-destun

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dogfennau cenedlaethol a lleol presennol ar anghenion sgiliau yn Sir Conwy a Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan CBSC, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sefydliadau sector-benodol eraill.

Cenedlaethol

Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru

- 2.2 Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a oedd yn amlygu'r uchelgais i ddatblygu'r system sgiliau yng Nghymru. Prif ffocws y Cynllun oedd codi cynhyrchiant, lleihau rhwystrau i waith a chefnogi pobl i gael gwaith cynaliadwy¹.
- 2.3 Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Sgiliau hwn i lywio gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â pholisi sgiliau a chyflogaeth ôl-19. Nod y cynllun oedd darparu manylion am y camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru wrth weithio gyda chyflogwyr, unigolion, undebau llafur a phartneriaid darparu.
- 2.4 Ategwyd y Cynllun gan gyfres o Fesurau Perfformiad Sgiliau, a fyddai'n cael eu defnyddio fel meincnod i werthuso perfformiad polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Roedd y Mesurau Perfformiad Sgiliau yn seiliedig ar bedwar maes allweddol:
- Swyddi a thwf;
 - Cydraddoldeb ac ecwiti;
 - Cynaliadwyedd ariannol; a,
 - Meincnodi sgiliau rhwngwladol.
- 2.5 Ymhellach, mae'r Cynllun yn cynnwys y Porth Sgiliau, sy'n darparu mynediad i gyflogaeth a chymorth sgiliau i unigolion a chyflogwyr.

Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau

- 2.6 Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu sgiliau (fel y nodir uchod) gyda'r nod o greu'r amodau cywir i gyflogwyr ledled Cymru i lwyddo a ffynnu. Mae'r Datganiad yn nodi camau gweithredu polisi yn y dyfodol sy'n anelu at alluogi ac esblygu Cymru yn genedl hynod fedrus gyda ffocws cryf ar gyflogaeth a sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys pedwar maes allweddol:
- sgiliau ar gyfer swyddi a thwf;
 - sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol;
 - sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi; a,
 - sgiliau ar gyfer cyflogaeth.
- 2.7 Roedd y Datganiad Polisi yn canolbwyntio'n bennaf ar ymyrraeth sgiliau ôl-19 ac yn diffinio'r gweithgareddau hynny a oedd yn darparu sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth trwy addysg a hyfforddiant. Roedd goblygiadau ehangach y datganiad yn canolbwyntio ar dri maes eang:
- Sgiliau llythrennedd a rhifedd;

¹ Llywodraeth Cymru (2014): Cynllun Gweithredu Sgiliau

- Cymwysterau a chwricwlwm cyn-19; a,
- Sgiliau lefel uwch.

2.8 Mae'r Datganiad yn adeiladu ar nifer o feysydd datblygu polisi allweddol mewn perthynas â'r system sgiliau a ysgogir gan Lywodraeth Cymru.

Isranbarthol

Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017)

2.9 Yn 2017, cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru [NWEAB] ei gynllun sgiliau a chyflogaeth a fabwysiadwyd ar gyfer y rhanbarth, ac mae wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o'i thair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Mae NWEAB yn cydlynu darpariaeth a chefnogaeth ar draws y rhanbarth, ac yn cysylltu â ffrydiau gwaith eraill y Bwrdd. Nod y Cynllun yw:

"Gwella ac uwchraddio sylfaen sgiliau'r rhanbarth a darparu twf cyflogaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar wella'r cyflenwad o sgiliau uwch yn y clystyrau economi gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Mae angen cefnogi cyflogwyr yn y rhanbarth i ysgogi'r ddarpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion, gyda'n system addysg yn cael ei harwain gan y galw, ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn y cwricwlwm."²

2.10 Mae'r ffrwd waith yn gydweithrediad rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n alinio'r galw am sgiliau a swyddi a gynhyrchir gan sylfaen fusnes y rhanbarth yn ogystal â chyfleoedd twf allweddol mewn sectorau targed. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1 Ynni a'r Amgylchedd;
- 2 Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch;
- 3 Adeiladu;
- 4 Creadigol a Digidol;
- 5 Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- 6 Twristiaeth a Lletygarwch; a,
- 7 Bwyd a Diod.

2.11 Nod y ffrwd waith yw gwella hygyrchedd y farchnad lafur a gwella'r cyflenwad sgiliau i ddiwallu anghenion busnesau yn well. Mae'r ffrwd waith yn cynnwys prentisiaethau, addysg bellach, Addysg Uwch, dysgu yn y gweithle, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar bynciau 'STEM' (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, a Mathemateg). Disgwylir i hyn fod o fudd uniongyrchol i weithlu a busnesau Conwy ac mae'n debygol y bydd gorf i'w ychwanegol o effeithiau o rannau eraill o'r rhanbarth.

Lleol

Strategaeth Economaidd Ddrafft CBSC 2017-2027 – Y Lleoliad Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf (2017)

2.12 Mae Strategaeth Economaidd ddrafft CBSC yn nodi gweledigaeth y Cyngor i dyfu economi Conwy o 2017 i 2027. Mae hwn yn nodi pum uchelgais:

- 1 Creu adeiladau busnes o'r radd flaenaf i gefnogi twf a denu busnesau newydd;

² Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017) Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

- 2 Denu pencadlysoedd / canolfannau rhyngwladol yn weithredol i'r sir;
- 3 Sefydlu presenoldeb Addysg Uwch penodol yn y sir;
- 4 Datblygu economi gyda'r nos yn Llandudno a chynnig twristiaeth y gaeaf ar draws y Sir gan wneud Conwy yn gyrchfan ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn; a,
- 5 Hwyluso'r morlyn Llanw a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ar draws y Sir.

- 2.13 Mae polisi cynllunio yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r uchelgeisiau hyn ac wrth greu adeiladau busnes o'r radd flaenaf a denu prif swyddfeydd / canolfannau rhyngwladol i'r sir. Felly disgwylir i Strategaeth Economaidd Conwy chwarae rhan allweddol wrth lunio twf economaidd y Sir yn y dyfodol.
- 2.14 Mae sicrhau bod safleoedd cyflogaeth addas ar gael i fusnesau yn hanfodol i alluogi datblygu adeiladau busnes newydd ac o ansawdd uchel. Mae diogelu'r adeiladau busnes gorau yn y broses gynllunio leol hefyd yn chwarae rôl bwysig.³
- 2.15 Mae Strategaeth Economaidd Conwy yn cyfeirio at safleoedd strategol y Sir a'r potensial sydd ganddynt i ddarparu adeiladau busnes o'r radd flaenaf fel De Dwyrain Abergele. Nod y Strategaeth yw annog pencadlysoedd i leoli yng Nghonwy, a fyddai'n helpu i greu swyddi lleol o werth uchel a sgiliau uchel, yn ogystal â helpu i leihau pobl ifanc sy'n allfudo trwy ddarparu swyddi lefel graddedig yn yr ardal.

Cynllun Datblygu Lleol Conwy (mabwysiadwyd Hydref 2013)

- 2.16 Y Cynllun Datblygu Statudol ar gyfer CBSC yw Cynllun Datblygu Lleol [CDLI] Conwy, a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2013. Mae'r CDLI yn canolbwyntio ar sut y caiff datblygiadau newydd eu rheoli yn y Sir rhwng 2007 a 2022.
- 2.17 Yn y CDLI, mae Polisi Strategol EMP / 1 yn canolbwyntio ar anghenion tir cyflogaeth Dosbarth B ar gyfer y Sir. Amlygodd y Cynllun fod gofod gwerth uwch Dosbarth B yn hanfodol i fywiogrwydd a thwf economaidd y Sir. Mae Polisi Strategol EMP / 1 o'r CDLI mabwysiedig yn nodi gofyniad tir cyflogaeth o 36 ha dros gyfnod y cynllun.
- 2.18 Nod Polisi CFS / 15 yw cefnogi cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau addysg newydd yn y Sir. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd ac nid yw'n sôn am y ddarpariaeth Addysg Bellach neu Uwch bresennol neu'r dyfodol yng Nghonwy.

Rhaglen Cadwyn Gyflenwi

- 2.19 Mae Rhaglen Cadwyn Gyflenwi yn cael ei datblygu i gefnogi busnesau ar draws rhanbarth y Gogledd-orllewin i fanteisio ar gyfleoedd newydd a gynhyrchir gan y chwe phrosiect trawsnewidiol (fel yr amlygwyd yn dod i'r rhanbarth⁴). Yn ogystal â chynnal gweithdai a chynhyrchu ymwybyddiaeth ymysg busnesau lleol, mae'r rhaglen yn datblygu pecynnau cymorth wedi'u targedu a fydd yn helpu busnesau gyda chilfachau neu sectorau penodol i fanteisio ar gyfleoedd.
- 2.20 Mae'r rhaglen ar fin cael ei datblygu ond mae'n debygol o fod â phwyslais ar y sectorau Adeiladu, Gweithgynhyrchu ac Ynni, fel ei bod yn adlewyrchu natur prosiectau datblygu allweddol yng Ngogledd Cymru. Bydd Conwy yn elwa ar y Rhaglen Cadwyn Gyflenwi, er nes bod y cynlluniau'n cael eu datblygu ymhellach, mae'n ansicr i ba raddau y bydd busnesau'r Sir yn gallu manteisio ar y gefnogaeth a gynigir.

³ Lichfields (Tachwedd 2016) Invest to Grow – How Can Planning Support Inward Investment?
<http://lichfields.uk/content/insights/?article=invest-to-grow&archive>

⁴ Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2016) Prosiectau Allweddol <<http://www.northwaleseab.co.uk/supply-chains/key-projects/>>

Cyd-destun Demograffig a Sgiliau

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r adran hon yn sefydlu'r cyd-destun demograffig a sgiliau ar gyfer Sir Conwy, gan dynnu sylw at dueddiadau economaidd ac addysg allweddol ar lefel sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi deillio o ddata cyhoeddus a gwybodaeth arall sydd ar gael yn bennaf o Ystadegau Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol [ONS].

Demograffeg

Amcangyfrifon Poblogaeth

- 3.2 Yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn [MYE] diweddaraf yr ONS, roedd poblogaeth Conwy yn 116,863 yn 2017, wedi cynyddu 2.7% dros y cyfnod 10 mlynedd 2007 i 2017. Roedd hyn ychydig yn uwch na chyfradd Gogledd Cymru (2.5%), islaw cyfraddau Cymru (4.0%) a'r DU (7.7%)⁵.
- 3.3 Roedd gostyngiad cyffredinol (-2.2%) yn y boblogaeth oedran gweithio rhwng 2007 a 2017 yn Sir Conwy. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed mwy o ostyngiad yng Ngogledd Cymru (-2.8%). Mewn cyferbyniad, tyfodd poblogaethau oedran gweithio Cymru a'r DU 0.4% a 4.1% yn y drefn honno dros y 10 mlynedd diwethaf.
- 3.4 Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Conwy wedi gweld cwymp o -3.8% yn nifer y preswylwyr 18-24 oed sydd wedi elwa fwyaf ar gyrsiau Addysg Uwch. Roedd y gostyngiad hwn hefyd yn sylweddol is na chyfraddau Gogledd Cymru (-0.7%), Cymru (1.4%) a'r DU (1.2%). Mae'r newidiadau demograffig hyn yn golygu bod gweithlu llafur Conwy yn wynebu heriau clir fel y nodir yn Nhabl 3.1, gyda llai o boblogaeth oedran gweithio ac iau Conwy yn ymuno â'r gweithlu neu Addysg Bellach / Uwch.

Tabl 3.1% Newid yn y Boblogaeth rhwng 2007 a 2017

Ardal	Pob Oed	16 i 64 Oed	18 i 24 Oed	65+ Oed
Ynys Môn	0.1%	-7.3%	-11.2%	24.5%
Conwy	2.7%	-2.2%	-3.8%	19.2%
Sir Ddinbych	0.7%	-4.4%	-1.3%	17.7%
Sir y Fflint	2.9%	-3.0%	-4.7%	31.4%
Gwynedd	3.6%	0.4%	18.8%	18.7%
Wrecsam	3.3%	-2.5%	-10.7%	24.4%
Gogledd Cymru	2.5%	-2.8%	-0.7%	22.6%
Cymru	4.0%	0.4%	1.4%	21.4%
DU	7.7%	4.1%	1.2%	23.1%

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn ONS (2018)

Amcanestyniadau Poblogaeth

- 3.5 Mae Amcanestyniadau Poblogaeth Is-genedlaethol [SNPP] Ystadegau Cymru ar gyfer Sir Conwy yn awgrymu y bydd y boblogaeth gyffredinol yn codi i 116,717 rhwng 2017 a 2039, sy'n cynrychioli cynnydd o 1.7% (sy'n cyfateb i 1,505 o bobl).
- 3.6 Fel y dangosir yn Nhabl 3.2, rhagwelir y bydd poblogaeth breswyl Conwy yn tyfu ar gyfradd arafach na chyfartaleddau Gogledd Cymru a Chymru, y rhagwelir y byddant yn cynyddu 4.1% a

⁵ ONS (2018): 2002-2017 Amcanestyniadau Poblogaeth Canol Blwyddyn

4.6% yn y drefn honno rhwng 2017 a 2039. Rhagwelir y bydd poblogaeth Conwy ar ei uchaf ar 118,611 o drigolion yn 2032 cyn gostwng yn raddol i 118,222 erbyn 2039 gan fod newid naturiol net negyddol yn trechu mewnfudo net cadarnhaol.

Tabl 3.2 Amcanestyniadau Poblogaeth Is-Genedlaethol rhwng 2017-2039 yn seiliedig ar 2014

	2017	2039	2017-2039	2017-2039 (%)
Ynys Môn	70,176	68,348	-1,828	-2.6%
Gwynedd	123,299	132,585	9,286	8.4%
Conwy	116,717	118,222	1,505	1.7%
Sir Ddinbych	95,336	97,326	1,990	2.7%
Sir y Fflint	154,651	155,859	1,208	1.3%
Wrecsam	138,536	149,976	11,440	9.7%
Gogledd Cymru	698,716	722,317	23,601	4.1%
Cymru	3,116,371	3,259,522	143,151	4.6%

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru - Amcanestyniadau Poblogaeth Is-Genedlaethol yn seiliedig ar 2014

3.7

Rhwng 2017 a 2039, rhagwelir y bydd poblogaeth oedran gweithio Conwy yn gostwng yn sylweddol o 13.1% - ar draws Gogledd Cymru, rhagwelir mai dim ond Ynys Môn fydd yn profi dirywiad uwch (-16.3%) na Chonwy. Ar draws y rhanbarth, disgwylir i'r boblogaeth oedran gweithio ostwng 7.9%, sydd eto'n uwch na chyfradd Cymru (-5.1%).

Tabl 3.3 Poblogaeth Oed Gweithio SNPP rhwng 2017-2039 yn seiliedig ar 2014

	2017	2039	2017-2039	2017-2039 (%)
Ynys Môn	40,187	34,426	-5,761	-16.3%
Gwynedd	74,027	74,505	478	0.6%
Conwy	66,195	58,121	-8,074	-13.1%
Sir Ddinbych	55,082	50,043	-5,038	-10.5%
Sir y Fflint	93,708	82,965	-10,743	-12.7%
Wrecsam	84,989	84,872	-117	-0.1%
Gogledd Cymru	414,188	384,933	-29,255	-7.9%
Cymru	1,911,971	1,814,767	-97,204	-5.1%

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru: Amcanestyniadau Poblogaeth Is-Genedlaethol yn seiliedig ar 2014

Cymudo ac Ymfudo Commuting and Migration

3.8

Ceir crynodeb o batrymau allweddol teithio i'r gwaith yng Ngonwy (yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011) yn Nhabl 3.4. Mae 38,279 o drigolion Conwy yn byw ac yn gweithio yn y Sir (gan gynnwys 6,977 o weithwyr o gartref). Mae cyfanswm o 12,348 o drigolion Conwy yn cymudo allan o'r Sir i gyfleoedd cyflogaeth mewn mannau eraill, tra bod 7,408 o bobl nad ydynt yn breswylwyr yn teithio i'r Sir am waith. Mae hyn yn rhoi ffigwr cyffredinol net o 4,851 yn cymudo allan.

Tabl 3.4 Patrymau Teithio i'r Gwaith (Conwy)

	Conwy
Byw a Gweithio yn yr ALI	38,279
Gweithio o Gartref	6,977
Dim Gweithle Sefydlog	3,995
Cymudo i mewn	7,408
Cymudo allan	12,348
Balans Cymudo Net	-4,851

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 / Dadansoddiad Lichfields

- 3.9 Mae Tabl 3.5 yn rhoi dadansoddiad o lifau cymudo allweddol Conwy yn ôl lleoliad y cyrchfan a'r tarddiad. Lluniwyd y data ar lefel awdurdod lleol. O'r tabl, gwelir fod y perthnasau cryfaf yn gyffredinol â'r ardaloedd hynny sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Gellir gweld hefyd, er bod Conwy yn allforiwr llafur net yn gyffredinol, ei fod yn gweithredu fel mewnoforiwr llafur net mewn perthynas ag Ynys Môn yn unig.

Tabl 3.5 Llifau Teithio i'r Gwaith Allweddol Conwy yn ôl Awdurdod Lleoly

	Nifer y bobl		
	Tarddiad Cymudwyr i Gonwy	Cyrchfan cymudwyr o Gonwy	Balans Cymudo Conwy
Ynys Môn	761	417	+344
Sir Ddinbych	3,332	5,407	-2,075
Gwynedd	1,520	2,373	-853
Sir y Fflint	790	1,048	-258
Wrecsam	269	349	-80
Gorllewin Swydd Caer a Chaer	139	409	-270
Lerpwl	52	119	-67
Cyfanswm	34,170	37,429	-3,259

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 / Dadansoddiad Lichfields

- 3.10 Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn diffinio ardaloedd y farchnad lafur fel yr ardaloedd hynny lle mae mwyafrif y boblogaeth breswyl hefyd yn gweithio yn yr un ardal. Mae diffinio ardaloedd marchnad lafur yn gofyn am ddadansoddiad o batrymau cymudo i nodi Ardaloedd Teithio i'r Gwaith [TTWA] ar gyfer economïau lleol. Y meini prawf presennol yw bod o leiaf 75% o weithlu preswyl ardal yn gweithio yn yr ardal yn gyffredinol a bod o leiaf 75% o'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal hefyd yn byw yn yr ardal. Rhaid i'r ardal hefyd fod â phoblogaeth o 3,500 o leiaf⁶.
- 3.11 Mae cymhwyso'r fethodoleg hon i ddata Cyfrifiad 2011 yn dangos bod ardal marchnad lafur Conwy yn cynnwys: Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Gyda'i gilydd, mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys:
- Y gweithle ar gyfer 89% o weithlu preswyl Conwy (35,087); a,
 - Lle preswyl ar gyfer 93% o gyfanswm poblogaeth gweithle Conwy (32,159). The place of residence for 93% of Conwy's total workplace population (32,159).
- 3.12 Cefnogir data cymudo Cyfrifiad 2011 gan ddata dwysedd swydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (a ddiffinnir fel nifer y swyddi wedi'u llenwi mewn ardal wedi'i rannu â nifer yr oedran gweithio sy'n byw yn yr ardal honno). Mae Tabl 3.6 yn nodi ffigurau dwysedd swyddi ar gyfer Conwy ac awdurdodau cymharol sy'n ffinio â Chonwy a / neu sydd â pheth cysylltiad drwy ymfudo a chymudo.
- 3.13 Fel y dangosir yn Nhabl 3.6, 0.78 yw'r ffigur dwysedd swydd ar gyfer Conwy, sydd ychydig yn is na chyfartaledd yr awdurdodau cymharol. Mae hyn yn dangos bod lefel uchel o gyd-ddibyniaeth rhwng Conwy a'r awdurdodau lleol cyfagos, gyda lefelau ychydig yn uwch o gymudo allan o Gonwy i awdurdodau cyfagos.

⁶<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/traveltoworkareaanalysinggreatbritain/2016>

Tabl 3.6 Ardaloedd Cymharu Dwysedd Swyddi (2016)

Awdurdodau Lleol	Dwysedd Swyddi
Ynys Môn	0.67
Conwy	0.78
Sir Ddinbych	0.81
Sir y Fflint	0.88
Gwynedd	0.90
Wrecsam	0.75
Cyfartaledd Gogledd Cymru	0.80

Ffynhonnell: ONS Dwysedd Swyddi (2016)

Economeg a Sgiliau

Y Farchnad Lafur

- 3.14 Mae gan Gonwy gyfradd gweithgarwch economaidd ychydig yn is o 76.9% o gymharu â Gogledd Cymru (78.6%) a Phrydain Fawr (78.2%), yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r Sir yn perfformio'n well o gymharu â Chymru gyfan (76.3%).
- 3.15 Mae Conwy yn perfformio'n uwch na chyfraddau Cymru (35.1%) a Gogledd Cymru (34.8%) o ran lefelau cyrhaeddiad Addysg Uwch, gyda 37.1% o drigolion â chymwysterau NVQ4 ac uwch (HNC neu uwch). Fodd bynnag, mae Conwy'n llusgo y tu ôl i gyfradd Prydain Fawr o 38.6%⁷.

Tabl 3.7 Cyfraddau Gweithgaredd Economaidd

Ardal	Cyfraddau Gweithgaredd Economaidd (%)	Cymwysterau NVQ 4+ (%)	Dim Cymwysterau (%)
Ynys Môn	79.4%	39.7%	7.5%
Conwy	76.9%	37.1%	5.9%
Sir Ddinbych	75.6%	35.4%	7.6%
Sir y Fflint	78.7%	28.3%	9.9%
Gwynedd	76.5%	36.5%	8.9%
Wrecsam	83.1%	31.6%	7.1%
Gogledd Cymru	78.6%	34.8%	7.8%
Cymru	76.3%	35.1%	8.7%
Prydain Fawr	78.2%	38.6%	7.7%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynnyddol ONS (Gorffennaf 2017 - Mehefin 2018) - Cyfraddau Gweithgaredd Economaidd / (Ionawr 2017-Rhagfyr 2017) Lefelau Cymwysterau

- 3.16 Conwy sydd â'r gyfran isaf o drigolion heb gymwysterau (5.9%) o gymharu â holl awdurdodau Gogledd Cymru (7.8%), yn ogystal â Chymru (8.7%) a Phrydain Fawr (7.7%) yn gyffredinol.
- 3.17 O ran nifer y galwedigaethau, mae 44.2% o weithwyr Conwy yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau rheoli, proffesiynol a thechnegol. Mae Tabl 3.8 yn dangos bod hyn yn uwch na lefelau Gogledd Cymru (38.6%) a Chymru (40.8%), ond yn is na chyfradd Prydain Fawr (45.9%). Mewn cyferbyniad, mae 18.9% o drigolion Conwy yn cael eu cyflogi yn y galwedigaethau â'r sgiliau isaf o gymharu â chyfraddau ehangach Gogledd Cymru (19.0%) a

⁷ Arolwg poblogaeth blynnyddol ONS (Gorffennaf 2017 – Mehefin 2018)

Cymru (19.1%); er bod hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Prydain Fawr (17.0%) yn ei chyfanrwydd.

Tabl 3.8 Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth (Gorffennaf 2017-Mehefin 2018)^T

	Soc 2010 Prif Grŵp 1-3*	Soc 2010 Prif Grŵp 8-9**
Ynys Môn	42.3%	16.8%
Conwy	44.2%	18.9%
Sir Ddinbych	39.9%	18.5%
Sir y Fflint	36.5%	23.3%
Gwynedd	39.5%	15.8%
Wrecsam	40.8%	22.2%
Gogledd Cymru	38.6%	19.0%
Cymru	40.8%	19.1%
Prydain Fawr	45.9%	17.0%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol ONS. Noder: * Mae Soc 2010 Prif Grŵp 1-3 yn cynnwys: Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion, Galwedigaethau Proffesiynol a Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol. ** Mae Soc 2010 Grŵp Mawr 8-9 yn cynnwys: Gweithredwyr Prosesu Peiriannau a Galwedigaethau Elfennol

Diweithdra

- 3.18 Rhwng Gorffennaf 2017 a Mehefin 2018, cyfartaledd y lefelau diweithdra ar gyfer y rhai 16 i 64+ yng Nghonwy oedd 3.8%. Mae hyn yn cyfateb i 2,000 o drigolion di-waith, sy'n is na chyfradd diweithdra gyffredinol Cymru (4.8%) ond ychydig yn uwch na chyfradd Prydain Fawr (4.2%)⁸.
- 3.19 O'r 590 o drigolion sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar hyn o bryd yng Nghonwy (Hydref 2018), roedd cyfanswm o 510 o bobl (86.4%) yn chwilio am waith o fewn y galwedigaethau canlynol:
- 1 Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmer (60.2% o holl hawlwy Lwfans Ceisio Gwaith Sir Conwy - 355 o bobl);
 - 2 Rheolwyr ac Uwch Swyddogion (18.6% - 110 o bobl); a,
 - 3 Galwedigaethau Sylfaenol (7.6% - 45 o bobl).⁹

Demograffeg Busnes

Cyflogaeth o fewn Sectorau Eang

- 3.20 Mae Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth yr ONS (2017) yn dangos bod gan Gonwy 43,000 o swyddi cyflogaeth yn 2016, sef cynnydd o 7.5% (sy'n cyfateb i 3,000 o weithwyr) o 2012. Yn 2017, roedd sectorau cyflogaeth mwyaf Conwy yn cynnwys iechyd (16.2%), llety a gwasanaethau bwyd (14.0%), addysg (10.5%) a manwerthu (9.3%)¹⁰.
- 3.21 Mae gan Gonwy gyfran uwch o weithwyr mewn sectorau megis gwasanaethau llety a bwyd, celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill o'i gymharu â'r cyfraddau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn oherwydd y sector twristiaeth, lletygarwch a bwyd cryf yn y Sir. Fodd bynnag, mae cyfran y gweithwyr yn y sector gweithgynhyrchu yn sylweddol is na'r holl ardaloedd cymharol.

⁸ ONS (2018) Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Gorffennaf 2017-Mehefin 2018)

⁹ ONS (2018) Lwfans Ceisio Gwaith yn ôl galwedigaeth (Hydref 2018)

¹⁰ ONS Arolwg Cyflogaeth Cofrestr Busnes (2018)

Tabl 3.9 Lefel cyflogaeth o fewn sectorau eang yn 2017

Sector	Lefel cyflogaeth sector yn 2017 (% o'r holl bobl mewn cyflogaeth)			
	Conwy	Gogledd Cymru	Cymru	Prydain Fawr
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	1.4%	1.5%	1.1%	0.7%
Mwyngloddio, cloddio a chyfleustodau	0.9%	1.8%	1.7%	1.3%
Gweithgynhyrchu	2.9%	14.5%	11.1%	8.1%
Adeiladu	4.7%	4.3%	4.2%	4.8%
Crefftiau modur	1.9%	1.5%	1.5%	1.7%
Cyfanwerthu	1.6%	2.6%	2.3%	3.9%
Manwerthu	11.6%	10.0%	10.1%	9.5%
Cludiant a storio (gan gynnwys post)	2.9%	2.9%	3.2%	4.7%
Gwasanaethau llety a bwyd	14.0%	9.0%	7.7%	7.4%
Gwybodaeth a chyfathrebu	2.9%	3.5%	4.2%	4.3%
Ariannol ac yswiriant	1.2%	1.0%	2.3%	3.5%
Eiddo	1.2%	1.0%	1.2%	1.6%
Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	4.7%	5.1%	5.2%	8.4%
Gwasanaethau busnes, gweinyddu a chefnogi	4.7%	6.2%	6.7%	9.1%
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	9.3%	6.2%	7.0%	4.3%
Addysg	10.5%	8.9%	9.8%	8.9%
Iechyd	16.3%	15.8%	16.0%	13.2%
Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill	7.0%	4.1%	4.6%	4.5%

Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth ONS (2018) / Dadansoddiad Lichfields

Enillion

- 3.22 Yn 2018, yr enillion cyfartalog (canolrifol) fesul preswylfa yng Nghonwy ar gyfer gweithwyr amser llawn oedd £511.60 yr wythnos¹¹. Mae'r ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru (£501.23 yr wythnos) ond yn is na chyfartaleddau Cymru (£518.60) a chenedlaethol (£571.10 yr wythnos). Fodd bynnag, o holl awdurdodau Gogledd Cymru, dim ond Wrecsam sydd ag enillion preswyl uwch na Chonwy.
- 3.23 Mae enillion gweithle gros yng Nghonwy yn is nag enillion sy'n seiliedig ar breswylwyr. Mae cyflog wythnosol gros y gweithle yn £449.20¹² yn y Sir, sydd gryn dipyn yn is na chyfartaleddau Gogledd Cymru (£487.70), Cymru (£509.00) a Phrydain Fawr (£570.90). Dim ond Ynys Môn (£446.90) sydd â ffigur enillion gweithle is na Chonwy. Mae hyn yn dangos bod llawer o drigolion yn teithio allan o'r Sir i chwilio am waith â chyflog uwch mewn mannau eraill, fel Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

¹¹ Arolwg blynyddol o oriau ac enillion ONS annual survey of hours and earnings (2018)

¹² Ibid

Tabl 3.10 Enillion Wythnosol Gros Canolrifol (2018)


	Enillion Preswyl	Enillion Gweithle
Ynys Môn	£492.90	£446.90
Conwy	£511.60	£449.20
Sir Ddinbych	£489.60	£504.10
Sir y Fflint	£503.30	£553.00
Gwynedd	£478.40	£469.60
Wrecsam	£531.60	£503.60
Gogledd Cymru	£501.23	£487.70
Cymru	£518.60	£509.00
Prydain Fawr	£571.10	£570.90

Ffynhonnell: Arolwg blynnyddol ONS o oriau ac enillion (2018)

GVA (Cynhyrchedd)

- 3.24 Ar hyn o bryd mae cynhyrchiant (wedi'i fesur gan Werth Ychwanegol Gros [GVA] fesul gweithiwr) o fewn y gweithlu yng Nghonwy yn £30,960 y gweithiwr, sy'n sylweddol is na chyfwerthoedd Gogledd Cymru (£38,160) a Chymru (£39,090).
- 3.25 Fel y dangosir yn Ffigur 3.1, roedd GVA fesul gweithiwr yn aros islaw'r cyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol dros y cyfnod 2002-2017. Gallai hyn adlewyrchu crynhoad cyflogaeth o werth is yng Nghonwy ac mae'n dangos y cyfle i wella lefelau cynhyrchiant ac allbwn yr awdurdod yn y dyfodol.
- 3.26 Ers 2002, mae GVA fesul gweithiwr yng Nghonwy wedi gostwng, o £34,103 i £32,873 yn 2017 (- 3.6%). Mae'r gyfradd hon yn is na'r gyfradd twf rhanbarthol o 0.7% ac yn sylweddol is na'r gyfradd twf gyfartalog genedlaethol (5.9%) dros yr un cyfnod.

Ffigur 3.1 GVA cyfartalog fesul Gweithiwr 2002-2017



Ffynhonnell: Dadansoddiad Experian / Lichfield

Yr Iaith Gymraeg

- 3.27 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Amlygir yr uchelgais hon gan 'Strategaeth Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru sy'n nodi eu dull hirdymor o gyflawni'r weledigaeth hon. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn nodi tair thema strategol i gyflawni'r weledigaeth hon:
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a,
 - Creu amodau ffafriol - trwy seilwaith a chyd-destun.
- 3.28 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru (Mehefin 2018), gall 19% o oedolion 16 oed a hŷn siarad Cymraeg. Dywedodd 11% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, tra dywedodd 12% eu bod yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o'r Gymraeg a'i siarad bob dydd¹³.
- 3.29 Canolbwyntiodd yr Arolwg Defnydd Iaith (2014-15) ar:
- Gallu yn y Gymraeg;
 - Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
 - Addysg; a,
 - Defnyddio'r iaith.
- 3.30 Mae Tabl 3.11 yn dangos cyfran poblogaeth Gogledd Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyfedr; mae Cyngor Conwy yn is na chyfartaledd Gogledd Cymru. Ynys Môn a Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth.

Tabl 3.11 Y gallu i siarad Cymraeg

	Yn gallu siarad Cymraeg (%)	Methu siarad Cymraeg (%)	Methu siarad Cymraeg, ond gyda rhywfaint o allu siarad Cymraeg (%)
Ynys Môn	62%	36%	2%
Gwynedd	73%	23%	4%
Conwy	29%	62%	9%
Sir Ddinbych	33%	65%	2%
Sir y Fflint	12%	84%	4%
Wrecsam	16%	80%	3%
Powys	19%	73%	8%
Gogledd Cymru	35%	61%	5%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (2014-15)

- 3.31 Yn 2017, cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru [NWEAB] ei 'Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017' a oedd yn amlygu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn sectorau penodol.
- 3.32 Nododd y Cynllun fod angen pwyslais cryf i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y sbectrwm o wasanaethau y mae'n eu darparu. Mae hyn yn bennaf oherwydd ffactorau fel mewnfudo staff a chyflogaeth dros dro yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

¹³ Llywodraeth Cymru (2018) Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18

3.33 Mae'r Cynllun yn mynd ymlaen i ddweud:

"Mae'n bryder bod staff â sgiliau iaith Gymraeg yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn y sector yn sylweddol is, sef 16% ac 11% yn y drefn honno, er bod gallu'r boblogaeth gyffredinol o ran sgiliau iaith Gymraeg yn 35% yn y ddwy sir."¹⁴

3.34 Er enghraifft, mae Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar ofynion y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol¹⁵. Mae'r Strategaeth yn nodi y dylai darparwyr gwasanaethau ymrwmo i recriwtio siaradwyr Cymraeg i ddiwallu anghenion cleientiaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Byddai hyn o gymorth arbennig i ddiwallu anghenion cleifion a chleientiaid y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hyn yn awgrymu, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleient, bod darparu gofal a thriniaeth gyda sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.

Cyfraddau Cadw Myfyrwyr

Addysg Uwch

3.35 Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch [HESA] yw'r asiantaeth swyddogol ar gyfer casglu a dadansoddi data Addysg Uwch yn y DU. Mae HESA yn cyhoeddi nifer o setiau data sy'n canolbwyntio ar gyfraddau cadw myfyrwyr ar gyfer sefydliadau Addysg Uwch ledled y DU. Mae Tabl 3.12 yn dangos nifer y myfyrwyr amser llawn a fynychodd brifysgolion yng Nghymru ym mlwyddyn academiaidd 2016/17. Mae'r rhesymau canlynol yn bennaf ar gyfer myfyrwyr llawn amser sy'n gadael AU ym mhrifysgolion yng Nghymru, ac yn cynnwys:

- "Y ganran sy'n parhau yn yr un darparwr AU, sy'n trosglwyddo i ddarparwr AU arall ac nad ydynt bellach mewn AU y flwyddyn ar ôl cofrestru;
- Ar gyfer myfyrwyr gradd gyntaf, y canrannau sy'n parhau, trosglwyddo ac nad ydynt bellach mewn AU trwy farciwr cymdogaeth cyfranogiad isel (ar gyfer myfyrwyr ifanc) a marciwr AU blaenorol (ar gyfer myfyrwyr hŷn); a
- Y ganran sy'n parhau yn yr un darparwr AU (naill ai ar yr un cwrs neu rywle arall yn y darparwr AU), sy'n trosglwyddo i ddarparwr AU arall, neu'n absennol o Addysg Uwch yn gyfan gwbl ddwy flynedd ar ôl cofrestru, gyda rhaniad ar gyfer myfyrwyr ifanc a myfyrwyr hŷn."¹⁶

Tabl 3.12 Myfyrwyr israddedig llawn amser sy'n dechrau yn y flwyddyn academiaidd (2016/17)

Prifysgol	Cyfanswm yr ymgeiswyr llawn amser	Nifer nad ydynt bellach mewn AU	Canran nad ydynt bellach mewn AU (%)
Prifysgol Aberystwyth	1,740	95	5.4%
Prifysgol Bangor	2,275	115	5.0%
Prifysgol Caerdydd	4,885	205	4.2%
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	2,400	245	10.2%
Prifysgol Glyndŵr	980	150	15.1%
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0.0%
Prifysgol Abertawe	3,735	135	3.7%
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	1,485	155	10.5%
Prifysgol De Cymru	3,285	360	11.0%
Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog)	0	0	0.0%
CYFANSWM Cymru	20,795	1,460	7.0%

Ffynhonnell: HESA - Tabl T3 a T3e (2018)

¹⁴ Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017): Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017

¹⁵ Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (2017): Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Cymru

¹⁶ HESA (2018): Tabl T3 & T3e – Peidio â pharhau ddwy flynedd ar ôl cofrestru (2016/17)

- 3.36 Mae'n amlwg o Dabl 3.12 o brifysgolion yng Nghymru mai Glyndŵr Wrecsam sydd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr amser llawn (15.1%) nad ydynt yn parhau â'u graddau cyntaf ar ôl blwyddyn ar ôl eu derbyn ym mlwyddyn academiaidd 2016/17.
- 3.37 Ar y llaw arall, mae gan y brifysgol arall sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru, Prifysgol Bangor, gyfran is o ddechreuwy amser llawn sy'n rhoi'r gorau iddi o'i gymharu â ffigur cyffredinol Cymru.

Addysg Bellach

- 3.38 Mae Ystadegau Cymru yn darparu data Addysg Bellach yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau AB yng Nghymru sy'n gadael eu rhaglen ddysgu yn ystod y flwyddyn academiaidd. Mae'r set ddata hon yn cynnwys darpariaeth ddysgu yn seiliedig ar y gweithlu mewn sefydliadau Addysg Bellach ar sail aelod consortiwm a dysgu cymunedol awdurdodau lleol lle mae cofrestriad ffurfiol gyda sefydliad AB.

Tabl 3.13 Dysgwyr amser llawn sy'n gadael sefydliadau addysg bellach (2015/16)

Cyrchfan ar ôl gadael y rhaglen	Conwy		Gogledd Cymru		Cymru	
	16-24	Pob oed	16-24	Pob oed	16-24	Pob oed
Rhaglen ddysgu newydd (nid Addysg Uwch)	40%	37%	45%	43%	55%	45%
Addysg Uwch	13%	13%	14%	14%	26%	13%
Addysg neu hyfforddiant - nid yw'r math yn hysbys	0%	0%	0%	0%	7%	0%
Mynd i gyflogaeth newydd / newid cyflogaeth	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Parhau â chyflogaeth gyfredol	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Cyflogaeth / cyflogedig	19%	19%	15%	15%	0%	11%
Ceisio gwaith / di-waith	5%	5%	6%	6%	6%	7%
Hunangyflogaeth	0%	0%	0%	0%	4%	0%
Gwaith gwirfoddol	0%	1%	0%	0%	0%	0%
Parhau â'r rhaglen ddysgu bresennol	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Arall	4%	4%	3%	4%	0%	4%
Ddim yn hysbys	19%	21%	16%	17%	2%	19%
Pob cyrchfan	100%					

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru / Dadansoddiad Lichfields

- 3.39 Fel y dangosir yn Nhabl 3.13, y cam nesaf mwyaf cyffredin i fyfyrwyr AB yng Nghonwy yw gadael un cwrs i ddilyn un arall, ond heb symud ymlaen i Addysg Uwch. Mae'r grŵp hwnnw'n fwy yng ngweddill Gogledd Cymru, ac yng Nghymru gyfan, ond yng Nghonwy mae'n fwy cyffredin i bobl ifanc adael y coleg i ddechrau gweithio (19% ar gyfer Conwy, 15% yng Ngogledd Cymru, ac 11% Cymru gyfan). Mae cyfran y myfyrwyr sy'n gadael AB i ddechrau cwrs AU yr un fath yng Nghonwy ag ar draws Cymru yn fwy cyffredinol (13%).

Buddsoddiad Cyflogwyr mewn Sgiliau

- 3.40 Yn 2016, cynhyrchodd Arolwg Sgiliau Cyflogwyr [ESS] Comisiwn y DU ffynhonnell ddiffiniol o wybodaeth am yr heriau sgiliau y mae cyflogwyr ledled y DU yn eu hwynebu, a'u hymateb o ran buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant. Defnyddiodd yr arolwg dros 6,000 o gyfweiliadau a gynhaliwyd gyda chyflogwyr yng Nghymru.
- 3.41 Amlygodd yr adroddiad fod cyfanswm gwariant cyflogwyr ar hyfforddiant wedi cynyddu 8% rhwng 2013 a 2015, o £1.9 biliwn i £2.1 biliwn¹⁷. Mae hyn er gwaethaf y gwariant cyfartalog fesul gweithiwr a hyfforddwyd yn aros yr un fath â ffigur 2013 - fodd bynnag, roedd gwariant cyfartalog Cymru yn uwch na'r DU. Dywedodd ymatebwyr yr ESS fod y math mwyaf cyffredin o

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2015) Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015: Adroddiad Cymru

hyfforddiant ar gyfer eu gweithwyr yn ymwneud â dysgu ar-lein neu e-ddysgu (neu hunan-hyfforddiant arall) sef 43% a 37% yn y drefn honno.

- 3.42 Ledled Cymru, roedd cyfanswm buddsoddiad y cyflogwyr mewn hyfforddiant ar gyfartaledd yn cyfateb i tua £2,750 y person a £1,750 y gweithiwr¹⁸ - a oedd yn unol â'r gwariant cyfartalog yn 2013, ond cynnydd o'i gymharu â'r DU.

Sgiliau Hanfodol

- 3.43 Yn ôl yr ESS, dywedodd y mwyafrif helaeth o Gyflogwyr Cymru (86%) a gyfwelwyd fod eu staff yn hyfedr yn eu swyddi (a elwir hefyd yn ddwysedd bwlch sgiliau - a ddiffinnir fel y gyfran o staff nad ydynt yn gwbl hyfedr yn eu swydd). Ar draws Gogledd Cymru, gostyngodd cyfran y staff nad oeddent yn hyfedr yn eu swydd o 7.6% i 4.4% - sydd bellach ar gyfradd debyg i lefel Cymru (4.5%).
- 3.44 Nododd canfyddiadau'r arolwg fod cwmnïau mwy yn fwy tebygol o ddioddef bylchau sgiliau ymhlith eu gweithwyr o'u cymharu â chwmnïau llai. Ledled Cymru, roedd 6% o sefydliadau â 2-4 o weithwyr â bylchau sgiliau, gan godi i 51% ar gyfer y rheiny â 100 neu fwy o weithwyr¹⁹. Ar draws Cymru, nododd cyflogwyr amrywiaeth o ffactorau a arweiniodd at fylchau sgiliau yn eu gweithlu a nodir yn Nhabl 3.14.

Tabl 3.14 Prif achosion bylchau sgiliau (gyda ysgogiad)

Prif achosion bylchau sgiliau ymhlith Cyflogwyr Cymru	2011	2013	2015
Mae staff yn newydd i'r rôl	58%	63%	67%
Ar hyn o bryd, dim ond wedi'i gwblhau yn rhannol mae eu hyfforddiant	62%	47%	63%
Diffyg cymhelliant gan staff	35%	52%	46%
Maent wedi bod ar hyfforddiant ond nid yw eu perfformiad wedi gwella'n ddigonol	34%	47%	37%
Methu recriwtio staff gyda'r sgiliau gofynnol	26%	35%	31%
Cyflwyno arferion gweithio newydd	30%	29%	30%
Nid yw'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol	33%	27%	27%
Cyflwyno technoleg newydd	26%	20%	26%
Problemau cadw staff	10%	24%	17%
Datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd	22%	21%	15%

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015: Adroddiad Cymru

- 3.45 Rhesymau fel staff yn newydd i'r rôl a hyfforddiant heb ei gyflawni oedd yr achos mwyaf cyffredin o fylchau sgiliau (67% a 63% yn y drefn honno) ymhlith cyflogwyr Cymru yn 2015.
- 3.46 Yn ôl yr ESS, roedd ymatebwyr yn diffinio diffyg sgiliau eu gweithwyr mewn dau gategori -
- Sgiliau technegol ac ymarferol - sy'n diffinio cyswllt y rôl; a,
 - Sgiliau pobl a phersonol - sy'n canolbwyntio ar y sgiliau meddalach.
- 3.47 Ymysg cyflogwyr Cymru, mae Ffigur 3.2 yn dangos bod y bwlch sgiliau pobl a phersonol mwyaf cyffredin yn ymwneud â rheoli amser a blaenoriaethu tasgau (67%). Mae'n bosibl y gellir priodoli hyn yn rhannol o leiaf i aelodau staff sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â natur anodd eu rolau, tra bod gweithio fel tîm yn faes problemus arall i staff presennol (57%)²⁰.
- 3.48 O ran bylchau sgiliau technegol ac ymarferol, nodwyd sgiliau arbenigol / gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer rôl swydd benodol gweithiwr gan tua 56% o'r ymatebwyr. Dilynwyd hyn gan wybodaeth weithredol (44%) a diffyg gwybodaeth o ran sut roedd y sefydliad yn gweithio (40%). Mae bylchau sgiliau eraill a grybwyllir gan ymatebwyr yn cynnwys bod diffygion hefyd mewn

¹⁸ Ibid


¹⁹ Ibid

²⁰ Llywodraeth Cymru (2015) Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015: Adroddiad Cymru


sgiliau dadansoddol cymhleth: priodolwyd 37% o fylchau sgiliau i ddiffyg hyfedredd wrth ddatrys problemau cymhleth, a phriodolwyd 28% i ddiffyg sgiliau rhifiadol neu ystadegol cymhleth.

Ffigur 3.2 Sgiliau sy'n brin ymhlith staff gyda bylchau sgiliau

Sgiliau pobl a phersonol sy'n brin ymysg ymgeiswyr:



Sgiliau technegol ac ymarferol sy'n brin ymysg ymgeiswyr:



Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015

4.0 Prosiectau Trawsnewid Allweddol

- 4.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y saith prosiect trawsnewidiol allweddol ar draws Gogledd Cymru a'r galw yn y dyfodol am sgiliau ar draws Sir Conwy a Gogledd Cymru sydd eu hangen i wneud y prosiectau hyn yn llwyddiannus.
- 4.2 Mae CBSC wedi gofyn i Lichfields gymryd i ystyriaeth nifer o ddatblygiadau proffil uchel a mawr a arweinir gan y sector preifat ar draws Gogledd Cymru a fydd yn dylanwadu ar dwf economaidd yn y dyfodol ac yn debygol o gael manteision deilliannol ar gyfer Conwy.
- 4.3 Mae hyn o ragweld galw mawr am sgiliau gweithlu gan sectorau twf allweddol a phrosiectau datblygu yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â sut mae hyn yn bwydo i uchelgeisiau CBSC i ddarparu ar gyfer adnodd Addysg Uwch penodol yn y Sir.

Prosiectau Datblygu

Morlyn Llanw Bae Colwyn

- 4.4 Mae Morlyn Llanw Bae Colwyn yn gyfle tymor hir a fyddai'n cynhyrchu tua 3,000 MW o drydan yn ogystal â chwarae rhan mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd yr arfordir. Byddai'r datblygiad yn gwneud buddsoddiad sylweddol yn economi Gogledd Cymru ac yn arbennig Conwy, lle byddai'r cynllun yn cael ei leoli.
- 4.5 Mae gan Morlyn Llanw Bae Colwyn y potensial i weithredu fel amddiffynfa rhag llifogydd, gan amddiffyn rhai o'r cymunedau sy'n aml yn cael eu taro gan lifogydd ar hyd arfordir Gogledd Cymru.
- 4.6 Mae'r cynnig yn anelu at wario 50% o gostau'r prosiect yng Nghymru sy'n rhoi cyfle enfawr i gwmnïau lleol, tra bod cynlluniau ychwanegol i ddefnyddio rhan o Forlyn Llanw Bae Colwyn fel cyfleuster hamdden.
- 4.7 Roedd adroddiad annibynnol ar gyfer Tidal Lagoon Power yn 2014 yn amcangyfrif effeithiau economaidd datblygiadau llanw yn y dyfodol; gan ddod i'r casgliad bod y senario twf canolog o bum morlyn ar draws y DU yn dangos y gallai Morlyn Llanw Bae Colwyn greu hyd at 414 o swyddi adeiladu a thua 86 o swyddi pan fydd yn weithredol²¹.
- 4.8 Fodd bynnag, mae ansicrwydd cynyddol ynglŷn ag ansefydlogrwydd morlynnoedd llanw yn y DU, gyda'r cyhoeddiad diweddar ynghylch Morlyn Llanw Abertawe o bosibl â goblygiadau ehangach ar gyfer cyflawni cynnig Bae Colwyn a allai effeithio ar hyfywra cynigion Morlyn Llanw Bae Colwyn. Ym mis Mehefin 2018, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chefnogi prosiect Morlyn Llanw Abertawe gan godi cwestiynau am werth am arian. Yn ddiweddarach, datgelodd Cyngor Abertawe ei gynlluniau i fynd ar drywydd y prosiect ei hun - gan gyhoeddi ei fod wedi sefydlu tasglu i edrych ar ffyrdd eraill o gyflawni'r prosiect²².

Ymgynghori

- 4.9 Cynhaliwyd trafodaeth dros y ffôn gydag uwch gynrychiolydd yn Tidal Lagoon. Mae'n arwain y gwaith cwrpasu ym Mae Colwyn a hefyd yn arwain Grŵp Cynghori ar Ddiwydiant Llanw annibynnol Cymru. Amlygodd yr ansicrwydd ynghylch y prosiect oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod cefnogi prosiect arloesi Morlyn Llanw Bae Abertawe. Fodd bynnag, roedd yn

²¹ CEBR (Gorffennaf 2014) The Economic Case for a Tidal Lagoon Industry in the UK

²² <https://www.newcivilengineer.com/latest/swansea-bay-tidal-lagoon-looks-to-private-sector-to-revive-project/10036502.article>

gallu darparu gwybodaeth am y gofynion sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y morlyn llanw yn fwy cyffredinol, sy'n berthnasol i Fae Colwyn.

- 4.10 Rhagwelir y bydd Morlyn Llanw Bae Colwyn yn costio tua £7 biliwn²³ gyda disgwyliad y byddai tua 50% o'r gwariant cyfalaf yn cael ei gadw yng Nghymru. O ran y rhwydwaith cadwyn gyflenwi, amcangyfrifir bod 2,000 o gwmnïau a fyddai'n elwa o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y pum rhaglen morlyn llanw (gan gynnwys Bae Colwyn) - mae'n debyg y byddai 10% o'r cwmnïau hyn o Ogledd Cymru. Mae'r cwmnïau hyn yn debygol o fod mewn nifer o sectorau twf allweddol CBSC gan gynnwys:
- Gweithgynhyrchu;
 - Peirianeg Sifil;
 - Peirianeg fecanyddol; ac,
 - Adeiladu.
- 4.11 Yn benodol ar gyfer Bae Colwyn, awgrymwyd bod angen 14,000 o weithwyr adeiladu i adeiladu Morlyn Llanw Bae Colwyn dros y cyfnod adeiladu. Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu [CITB] wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon swyddi adeiladu ar gyfer y Morlyn Llanw ac mae'n disgwyl y bydd un swydd adeiladu uniongyrchol yn arwain at bedair / pump o swyddi anuniongyrchol ar draws y gadwyn gyflenwi.
- 4.12 Fodd bynnag, mynegodd bryderon ynghylch o ble y mae'r gweithlu llafur adeiladu yn debygol o ddod, gan ei fod o'r farn bod prinder sgiliau gwaith adeiladu yng Ngogledd Cymru a ledled y DU ar hyn o bryd. Gallai'r prinder llafur adeiladu gael ei waethgu gan brosiectau seilwaith mawr eraill sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru a rhannau eraill o'r DU ar yr un pryd fel HS2 a Chanolfannau Logisteg posibl Heathrow yng Nghymru.
- 4.13 Dywedodd yr uwch gynrychiolydd yn Tidal Lagoon fod Tidal Lagoon wedi bod yn adeiladu partneriaethau gyda Choleg Menai yn benodol i hybu sgiliau adeiladu yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal, mae wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor ar nifer o gyrsiau sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu, peirianeg ecoleg a gweithgareddau morol. Mae'n gobeithio y bydd y bartneriaeth hon yn cynorthwyo Tidal Lagoon i gyflogi pobl sydd â'r sylfaen sgiliau iawn unwaith y bydd Morlyn Llanw Bae Colwyn yn weithredol. Fodd bynnag, ar adeg y trafodaethau, ni ellid cadarnhau dyddiadau adeiladu a gweithredu.
- 4.14 Unwaith y bydd y Morlynnau Llanw yn weithredol, mynegwyd pryderon y bydd angen am bobl sy'n gweithio mewn rolau cydosod mecanyddol y rhagwelir i ddod o du allan i Ogledd Cymru. Ymhellach, dywedodd y cynrychiolydd y byddai problem o ran recriwtio pobl sy'n gweithio o fewn rolau ecoleg a pheirianeg arbenigol a byddai hyn yn gofyn am ymgyrch recriwtio ledled y DU er mwyn llenwi'r swyddi gwag hyn.

Sefydliad Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy

- 4.15 Bydd Sefydliad Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy yn chwarae rôl gefnogol i'r sector ar draws Gogledd Cymru. Mae'r cyfleuster arfaethedig i'w leoli ym Mharth Menter Glannau Dyfrdwy. Mae wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd a bydd yn agor erbyn diwedd 2019²⁴. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cefnogi busnesau o bob maint ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu a masnacheiddio technolegau newydd.
- 4.16 Byddai'r sefydliad yn canolbwyntio ar y broses weithgynhyrchu a gwelliannau technoleg a fyddai o fudd i nifer o sectorau gan gynnwys gweithgynhyrchu, ynni a bwyd. Mae Coleg Cambria yn

²³ <https://www.walesonline.co.uk/business/business-news/massive-7-billion-tidal-lagoon-14836557>

²⁴ <https://www.gov.uk/government/news/welsh-government-working-with-deca-on-plans-for-second-welsh-advanced-manufacturing-and-research-institute>

flaenllaw yn y sefydliad a byddai'n chwarae rhan bwysig mewn datblygu sgiliau, ar gyfer busnesau a phobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu.

- 4.17 Mae Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch [AMRC] Prifysgol Sheffield wedi gweithio gyda Bwrdd Ymgynghorol Parth Menter Glannau Dyfrdwy, Prifysgol Abertawe, a Choleg Cambria i ddatblygu'r sefydliad newydd ar y cyd ag Airbus a chwmnïau eraill. Ar ôl i'r sefydliad gael ei ddatblygu, bwriedir iddo helpu i wella perfformiad busnesau gweithgynhyrchu sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn Sir Conwy.
- 4.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y prosiect drwy fuddsoddi £20m ar gyfer y sefydliad newydd gyda ffocws cryf ar y sectorau gweithgynhyrchu uwch gan gynnwys awyrofod, moduro, niwclear a bwyd²⁵.
- 4.19 Bydd y sefydliad yn ceisio darparu lefel hollol newydd o gymorth i gwmnïau gweithgynhyrchu allweddol yn ogystal â chwmnïau cadwyn gyflenwi aml-sector ac economi SME ehangach, a bydd yn canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant, masnacheiddio, arloesi a datblygu sgiliau. Bydd angen i CBSC sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad i sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

Parc Gwyddoniaeth Menai [M-Sparc]

- 4.20 Mae Prifysgol Bangor wedi datblygu Parc Gwyddoniaeth newydd ar Ynys Môn a fydd yn darparu labordy a mannau dysgu newydd, yn ogystal â mannau busnes uwch-dechnoleg ar gyfer busnesau newydd a sefydledig. Bydd y datblygiad yn helpu i ysgogi'r economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ar draws Gogledd Cymru drwy ymgymryd ag ymchwil a datblygu a chefnogi twf ac arloesedd busnesau.
- 4.21 Gweledigaeth M-SParc yw ysgogi gwyddoniaeth yn seiliedig ar wybodaeth sy'n gysylltiedig ag arbenigedd ymchwil. Gwneir hyn trwy ysgogi diwylliant entrepreneuriaidd sy'n cysylltu arloesedd mewn sectorau allweddol fel ynni carbon isel, yr amgylchedd a TGCh. Mae M-Sparc yn dymuno datblygu ardal arloesi yng Ngogledd Orllewin Cymru, gyda'r Parc Gwyddoniaeth yn gatalydd ar gyfer syniadau arloesol yn y rhanbarth. Mae'r Parc hefyd yn ystyried ei hun fel bod yn gwneud cyfraniad at dyfu economi'r rhanbarth a darparu gweithlu medrus²⁶.
- 4.22 Mae M-SParc yn adeiladu cysylltiadau cryf â Phrifysgol Bangor, yn enwedig Colegau y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol, Gwyddoniaeth Naturiol, a Gwyddor Iechyd ac Ymddygiad. Mae prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill yn y DU, Ewrop ac ledled y byd sy'n gweithio ar brosiectau perthnasol a chysylltiedig hefyd yn bwriadu gweithio'n agos gyda M-Sparc. Bydd cysylltu arbenigedd academiaidd â chyfleoedd busnes yn rhan allweddol o gynnydd M-SParc.

Ymgynghori

- 4.23 Cynhaliwyd trafodaeth dros y ffôn gyda Chyfarwyddwr yn M-SParc sy'n arwain ar ddatblygiad strategol y Parc Gwyddoniaeth ac roedd yn Rheolwr Prosiect ar gyfer y cyfnod adeiladu. Yn ystod y cyfnod adeiladu, tynnodd sylw at y ffaith bod prinder dybryd o ran cyflogi llafur adeiladu ar draws pob lefel, gan gynnwys rheolwyr prosiect, syrfeyr meintiau, bricwyr, rheolwyr safleoedd a phlymwyr. Arweiniodd hyn at ymgyrch recriwtio ddwys i ddod o hyd i'r gweithlu adeiladu cywir.
- 4.24 Amcangyfrifodd y Cyfarwyddwr (yn M-SParc) fod tua 75% o weithwyr a gyflogwyd yn ystod y cyfnod adeiladu yn dod o ranbarth Gogledd Cymru. Gan fod prosiectau seilwaith mawr fel arfer yn dibynnu ar weithlu symudol yn genedlaethol, mae hynny'n ganran uchel. Mewn cyferbyniad, amcangyfrifodd mai dim ond 25% o weithwyr presennol M-SParc sydd o'r rhanbarth sy'n

²⁵ <http://www.deeside.com/Construction-begins-on-advanced-manufacturing-research-institute-in-broughton/>

²⁶ <http://www.ukspa.org.uk/members/menaisp>

dangos bod M-SParc yn ei chael hi'n anodd cyflogi pobl leol i weithio mewn swyddi gwerth ychwanegol uwch.

- 4.25 Soniodd fod llawer o denantiaid presennol M-SParc yn pryderu am y diffyg rhaglenwyr, datblygwyr meddalwedd a rolau eraill y sector digidol yn rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Soniodd fod y prinder sgiliau gwirioneddol ar gyfer nifer o denantiaid yn ymwneud â'r sector twf 'Creadigol a Digidol'. Mae Gogledd Cymru yn ei chael hi'n anodd cystadlu â dinasoedd fel Llundain, Manceinion, Caerdydd, Bryste a Birmingham ar gyfer cwmnïau a gweithwyr ar ffactorau fel cyflogau a ffordd o fyw.
- 4.26 Mae'r farchnad lafur ar gyfer sgiliau lefel uwch yn un cenedlaethol. Fel llawer o ardaloedd gwledig cymharol bell o'r prif gytrefi, mae Conwy yn wynebu heriau sylweddol wrth gystadlu'n effeithiol mewn marchnad genedlaethol, wrth berswadio pobl leol i aros (ar ôl eu hyfforddi), ac wrth argyhoeddi eraill i adleoli i'r ardal. Mae ansawdd bywyd, a'r siawns o gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn debygol o fod yn factor mawr i'r rhai sy'n dewis aros yng Nghonwy, neu symud yma.
- 4.27 Mae M-SParc yn gweithio mewn partneriaeth â Horizon ar y rhaglen Ynys Ynni (rhaglen i ddarparu hyfforddiant sgiliau arbenigol ar gyfer y prosiectau ynni carbon isel a gynlluniwyd). Nodwyd y byddai'r bartneriaeth hon yn golygu gweithio ar y sefydliad ymchwil niwclear cyntaf yng Nghymru sydd wedi agor ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Sefydliad Dyfodol Niwclear yn cael ei ariannu gan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n helpu i ddenu ymchwilwyr blaenllaw i Gymru, gyda chyllid hefyd yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Phrifysgol Bangor.

Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios

- 4.28 Bydd Parc Eco a Chanolfan Ynni Orthios yn Ynys Môn yn defnyddio gwres gwastraff a gynhyrchir gan waith biomas newydd ar gyfer cynhyrchu bwyd. Roedd disgwyl i'r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu yn 2018; fodd bynnag, mae'r cynlluniau i ddechrau wedi eu gohirio gyda'r dyddiad adeiladu yn dal yn anhysbys ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Disgwylir y bydd y Parc Eco yn creu 1,000 o swyddi adeiladu a 700 o swyddi unwaith y bydd yn weithredol²⁷.
- 4.29 Mae'r safle yng Nghaergybi wedi'i leoli'n agos at gysylltiadau ffordd, rheilffordd a môr strategol gan ei fod yn agos at Borthladd Caergybi. Mae yna gynlluniau ar gyfer Parc Eco Orthios i ddarparu terfynell cludo nwyddau ar y rheilffyrdd gan ddefnyddio cilffyrdd presennol y safle a mynediad rheilffordd i leihau traffig ffyrdd ar ac oddi ar Ynys Môn, gan ddarparu swyddi a refeniw ychwanegol. Mae Parc Eco Orthios yn un o nifer o brosiectau seilwaith mawr trawsnewidiol ar draws Gogledd Cymru, gyda chyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol a chadwyn gyflenwi sylweddol i bobl a busnesau yn lleol ac yn rhanbarthol. Rhagwelir y bydd hyn yn sbardun allweddol ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant i Ogledd Cymru.

Ymgynghori

- 4.30 Cynhaliwyd trafodaeth dros y ffôn gyda Rheolwr Adnoddau Dynol ym Mharc Eco Orthios. Cadarnhaodd fod gwaith dymchwel a chlirio cyfran fawr o safle Caergybi a chanolfan ddiwydiannol hŷn yn dal i fynd rhagddo ac mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae'r cynnig yn cynnwys defnyddio'r hen adeiladau llinell pot alwminiwm c.600,000 tr² presennol i brosesu porthiant plastig yn gynhyrchion gwerth uchel.
- 4.31 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gan Parc Eco Orthios 18 aelod o staff, gyda 13 o'r rhai sy'n gweithio yn yr adran gofal a chynnal a chadw [C&M]. Mae rolau'r tîm C&M yn cynnwys gweithwyr, crefftwyr aml-sgiliau a pheirianwyr mecanyddol a thrydanol. Mae mwyafrif y staff presennol yn byw yn rhanbarth Gogledd Cymru.

²⁷ <http://www.anglesey.gov.uk/Journals/p/q/d/Orthios-easy-read.pdf>

4.32 Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi dechrau, bydd angen ystod eang o swyddi adeiladu a allai fod yn broblematig gan ei bod yn debygol y bydd cystadleuaeth sylweddol i'r gweithwyr hyn ymhlith prosiectau datblygu allweddol eraill sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru yn fwy cyffredinol.

4.33 Gallai fod anawsterau o ran cyflogi pobl ar gam gweithredol y Parc Eco oherwydd y rolau arbenigol sydd eu hangen, sy'n debygol o gynnwys::

- Rolau Iechyd a Diogelwch;
- Rolau Rheoli Ansawdd;
- Rolau Uwch Reolwyr;
- Gofal a Chynnal a Chadw; a,
- Staff Swyddfa Gefn.

Parc Adfer

4.34 Mae Parc Adfer yn gyfleuster adfer ynni o wastraff yng Nglannau Dyfrdwy. Disgwylir y bydd yn cynhyrchu hyd at 350 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu brig yn ogystal ag amcangyfrif o £14m o gyfleoedd cadwyn gyflenwi²⁸.

4.35 Yn 2014, dewiswyd Wheelabrator Technologies fel y cynigydd a ffefrir i adeiladu a gweithredu cyfleuster Wheelabrator Parc Adfer dros y 25 mlynedd nesaf fel partneriaeth gyhoeddus-breifat [PPP], gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethu'r pum awdurdod lleol sy'n ffurfio Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru [NWRWTP]. Mae'r awdurdodau hyn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

4.36 Disgwylir i Barc Adfer fod yn weithredol ar ddechrau 2020 a bydd yn gallu prosesu hyd at 200,000 tonnall y flwyddyn o wastraff wedi'i ailgylchu, gan gynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy i ddiwallu anghenion dros 300,000 o gartrefi²⁹. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cwblhawyd 80% o'r gwaith sifil (adeiladwaith, cladin yr adeilad, gwasanaethau adeiladu, a gwasanaethau tanddaearol) a thua 60% o'r broses.

4.37 Amcangyfrifir y bydd Parc Adfer yn creu 35 o swyddi gweithredol llawn amser newydd yn ystod ei 25 mlynedd o weithredu³⁰.

Ymgynghori

4.38 Cynhaliodd Lichfields drafodaethau gyda Chyfarwyddwr Prosiect yn Wheelabrator Parc Adfer a Chadeirydd Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Adfer. Mae rhan o'i gylch gwaith yn cynnwys cysylltiadau / prosiectau cymunedol. Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd bod 270/280 o weithwyr adeiladu ar y safle ar hyn o bryd (350 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod prysuraf) ac amcangyfrifiwyd bod 40% o'r gweithwyr adeiladu hyn yn cael eu cyflogi'n lleol (o fewn radiws o 30 milltir). Mae hyn yn bennaf oherwydd natur arbenigol y rhaglen adeiladu sy'n gofyn am lawer o lafur arbenigol o'r tu allan i Ogledd Cymru.

4.39 Mewn cyferbyniad, nododd fod y mwyafrif (75%) o'r 35 swydd weithredol yn debygol o gael eu llenwi gan drigolion lleol. Bydd tua 26 o'r swyddi hyn yn cynnwys rolau technegol gan gynnwys: arweinwyr tîm, technegwyr gweithredol a pheirianwyr mecanyddol, gyda'r 9 swydd weithredol sy'n weddill yn alwedigaethau â sgiliau is.

²⁸ <https://www.wtiparcadfer.co.uk/about-us/news-and-events/parc-adfer-unveils-multi-million-pound-supply-opportunities-for-north-wales-businesses/>

²⁹ <https://www.wtiparcadfer.co.uk/>

³⁰ <https://parcadferConstruction.co.uk/faqs-employment-supplier-and-training-opportunities/>

- 4.40 Awgrymwyd na fydd recriwtio ar gyfer swyddi gweithredol Parc Adfer yn broblem, gan fod y rhan fwyaf o'r rolau arbenigol yn debygol o gael eu llenwi gan weithwyr lleol presennol o brosiectau wedi'u datgomisiynu ar draws Gogledd Cymru.
- 4.41 Cadarnhaodd fod Wheelabrator yn cymryd rhan weithredol mewn cynlluniau prentisiaeth mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd ar ôl i'r safle hwn ddod yn weithredol ac unwaith y bydd y tîm gweithrediadau craidd wedi ymgyswddo â dyluniad a gweithrediad y ffatri³¹.
- 4.42 Mae Wheelabrator yn ystyried gweithio'n agos gydag ysgolion ac Ysgolion Addysg Peirianeg Cymru [EESW] i hyrwyddo pynciau STEM ymhlith pobl ifanc. At hynny, mae Wheelabrator yn ystyried sut i ymgorffori cwricwlwm ysgolion lleol yng nghynnig addysgol Canolfan Ymwelwyr Parc Adfer.

Canolfan Ynni Wrecsam

- 4.43 Mae Canolfan Ynni Wrecsam yn orsaf bŵer tyrbîn nwy cylch cyfun [CCGT] arfaethedig i'w chyflwyno ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam. Mae'r Canolfan Ynni yn cael ei darparu gan Wrexham Power Limited [WPL] sy'n fenter ar y cyd rhwng Glenfinnan a St. Modwen.
- 4.44 Yn 2017, rhoddwyd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu [DCO] i WPL ar gyfer Canolfan Ynni Wrecsam. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynrychioli buddsoddiad o £300m i economi Gogledd Cymru a bydd yn:
- Darparu 30 o swyddi lleol parhaol hynod sgiliedig;
 - Creu hyd at 515 o swyddi adeiladu dros dair blynedd;
 - Darparu cyfle i gynyddu gwytnwch y cyflenwad pŵer i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam; a,
 - Lleihau dibyniaeth yr ardal ar ynni wedi'i fewnforio yn ogystal â gwella ei ddiogelwch ynni.³²
- 4.45 Bwriedir i WPL ddarparu ateb i gau gorsafoedd glo confensiynol glo a thanwydd olew am resymau amrywiol (oedran, darfodiad, ffactorau economaidd ac ati) ledled y DU.

Crynodeb

- 4.46 Trwy drafodaethau Lichfields gyda datblygwyr allweddol ar draws Gogledd Cymru, roedd yn amlwg bod problemau wrth recriwtio ar gyfer rolau penodol ar gyfer camau adeiladu a gweithredol y prosiectau datblygu allweddol hyn. Dywedodd pob prosiect datblygu y byddai problemau wrth recriwtio ar gyfer rolau arbenigol a gallai hyn arwain at ymgyrchoedd recriwtio dwys i lenwi swyddi gwag presennol ac yn y dyfodol o'r tu allan i Ogledd Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r datblygwyr allweddol wedi cydnabod y prinder pobl a sgiliau hyn ac maent eisoes wedi adeiladu partneriaethau allweddol gyda'r sefydliadau addysgol ar draws Gogledd Cymru a ledled y DU.
- 4.47 Ar gyfer cyfnodau adeiladu'r datblygiadau allweddol hyn, mae'n amlwg bod nifer o'r crefftau adeiladu medrus yn haws i'w recriwtio yng Ngogledd Cymru o gymharu â rolau adeiladu coler wen gan gynnwys rheolwyr safleoedd adeiladu, rheolwyr prosiect, a syrfewyr meintiau.
- 4.48 Gan fod y rhan fwyaf o'r datblygiadau allweddol yn gysylltiedig â'r sectorau Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni a'r Amgylchedd a Chreadigol a Digidol, bydd galw am sgiliau ar gyfer rolau sy'n gysylltiedig â STEM. Awgrymodd pob datblygwr allweddol y byddai angen rolau cysylltiedig â

³¹ http://wtiparcadfer.co.uk/site/assets/files/1116/aal-05-60-1019-01_clg_minutes_25_july_2018.pdf

³² <http://www.wrexham-power.com/index.html>

STEM fel peirianwyr (mecanyddol / trydanol a niwclear), syrfewyr a rheolwyr prosiect. Mae'r problemau sy'n wynebu'r sectorau hyn yn gysylltiedig â'r nifer cynyddol o bobl â'r sgiliau hyn sy'n gadael y sector oherwydd ymddeoliad. Er mwyn cwrdd â phrinder pobl a sgiliau ar draws Gogledd Cymru, dywedodd llawer o'r datblygwyr allweddol y dylai CBSC hyrwyddo Sir Conwy fel lleoliad a allai ddarparu cydbwysedd o ran ffordd o fyw a bywyd / gwaith. Mae'n bwysig, y gallai'r gofyniad am weithlu o'r tu allan i'r Sir arwain at bwysau cynyddol ar dai yn y Sir ac ar draws Gogledd Cymru.

5.0 Arolwg Anghenion Sgiliau

- 5.1 Cynhaliodd CBSC a Lichfields arolwg ar-lein yn 2018 i gael dealltwriaeth glir o anghenion a gofynion sgiliau busnesau lleol yng Nghonwy. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio'n benodol ar gwestiynau ynghylch math a maint y gofynion sgiliau sydd eu hangen ac uchelgeisiau twf eu busnesau ar gyfer Conwy.

Proffil Busnesau

- 5.2 Derbyniodd yr Arolwg Anghenion Sgiliau ymatebion gan 22 o fusnesau o wahanol feintiau a sectorau unigol. Roedd yr holl ymatebwyr yn gwmnïau bach a oedd yn cyflogi llai na 50 o bobl; gyda'r mwyafrif yn cyflogi llai na 10 aelod o staff.
- 5.3 Mae Tabl 5.1 yn cymharu maint busnesau, yn seiliedig ar nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn [CALI] sy'n gweithio ar gyfer ymatebion yr arolwg a'r boblogaeth fusnes ehangach. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (77%) yn ficro-fusnesau a oedd yn cyflogi llai na 10 CALI. Roedd mwy na dwywaith cymaint o gwmnïau a ymatebodd yn cyflogi rhwng 10 a 49 CALI o'i gymharu â lefel y Sir gyfan.

Tabl 5.1 Cymharu Maint Busnesau

Maint Busnes	Arolwg Busnes	Poblogaeth Busnes Conwy
0 i 9 CALI	77.3%	89.2%
10 i 49 CALI	22.7%	9.2%
50 i 249 CALI	0.0%	1.3%
250+ CALI	0.0%	0.3%


Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Q1-Q2 2018), Dadansoddiad Lichfields, ac ONS (Mawrth 2017)
Cofrestr Busnes Rhyngadrannol

- 5.4 Dim ond pedwar busnes a ddywedodd eu bod yn cyflogi prentisiaid; o'r busnesau hyn, roedd prentisiaid yn cynnwys rhwng 2% ac 17% o'r gweithlu. Dywedodd chwe busnes fod rhai o'u staff yn gweithio gartref. Roedd pob un o'r rhain yn fusnesau maint micro gyda llai na 10 o weithwyr.

Sectorau Busnes

- 5.5 Nododd tua 60% o fusnesau eu bod yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol tra bod 80% yn gwasanaethu marchnad y DU. Mae hyn yn dangos natur ryngwladol sector twristiaeth Sir Conwy.
- 5.6 Roedd ymatebwyr busnes yn cwmpasu ystod eang o sectorau, er bod sectorau fel gweithgynhyrchu a logisteg / dosbarthu wedi'u cynrychioli'n gryf. Efallai bod hyn ychydig yn syndod o gofio bod y dadansoddiad yn Ffigur 5.1 yn dangos bod y sectorau hyn wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn Sir Conwy. Cafwyd hefyd nifer o ymatebion gan sectorau twf posibl, fel Twristiaeth, Lletygarwch ac Adeiladu.
- 5.7 Mae Ffigur 5.1 yn dangos dosbarthiad sector y busnesau a ymatebodd.

Figur 5.1 Dosbarthiad Sectorau Busnes



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Ch1-Ch2 2018), Dadansoddiad Lichfields


5.8 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys busnesau newydd a hirsefydlog i Gonwy. Roedd 62% o fusnesau wedi bod yn eu hadeiladau am 10 mlynedd neu fwy o gymharu â 19% o'r ymatebwyr a oedd wedi dweud eu bod wedi bod yn eu hadeiladau presennol am 5 mlynedd neu lai.

5.9 O'r busnesau nad oedd eu hadeiladau presennol yn rhai cyntaf iddynt, roedd y mwyafrif helaeth (83%) wedi symud o fannau eraill yng Nghonwy. Roedd y busnesau eraill wedi symud o siroedd cyfagos eraill, yn enwedig Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Sgiliau Cyfredol

5.10 Fel rhan o'r Arolwg, gofynnwyd i fusnesau ddisgrifio lefel sgiliau eu gweithlu presennol. Fel y nodwyd yn Ffigur 5.2, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (55.6%) nad oes gan eu gweithlu presennol y sgiliau gofynnol i ddiwallu anghenion eu busnes. Mewn cyferbyniad, dim ond 27.8% o ymatebwyr oedd yn teimlo bod lefel sgiliau eu gweithluoedd presennol yn bodloni eu gofynion busnes.

Figur 5.2 Lefelau sgiliau gweithlu cyfredol sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion busnes




Ffynhonnell: Arolwg Anghenion Sgiliau Bwrdeistref Sirol Conwy (Ch1-Ch2 2018), Dadansoddiad Lichfields

- 5.11 Dywedodd 37.5% o'r ymatebwyr nad oes gan y cyflenwad llafur yn Sir Conwy a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru y cymwysterau / sgiliau cywir i ddiwallu anghenion gweithredol eu busnesau - mewn cymhariaeth, dim ond 18.8% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod cyflenwad llafur y Sir â'r sgiliau gofynnol.
- 5.12 Dywedodd mwyafrif y busnesau (52.9%) fod y diffyg sgiliau addas ymhlith y gweithlu presennol yn golygu bod busnesau'n gorfod gwneud gormod o hyfforddiant yn y swydd ar gyfer staff newydd. Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn cynhyrchiant ar gyfer busnesau lleol yn y tymor byr.
- 5.13 Mae'n amlwg o ymatebwyr yr arolwg bod gweithlu presennol Conwy yn tueddu i fod â sgiliau gweithlu cyffredinol yn hytrach na setiau sgiliau mwy penodol. Mae hyn yn cyd-fynd â barn rhai rhanddeiliaid lleol allweddol yr ymgynghorwyd â hwy, a gydnabuwyd yn gyffredinol bod prinder sgiliau ar hyn o bryd ar gyfer sgiliau STEM ar draws Conwy a Gogledd Cymru yn gyffredinol.
- 5.14 Amlygodd yr Arolwg Anghenion Sgiliau nifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar fusnesau o ran sgiliau cyfredol y gweithlu, a oedd yn cynnwys:
- Nid yw prentisiaid yn cael digon o amser i hyfforddi yn ymarferol;
 - Mae problemau wrth recriwtio'r bobl iawn oherwydd cyflogau cymharol is mewn rhai diwydiannau (fel Twristiaeth / Hamdden).

Addysg a hyfforddiant

- 5.15 O ran cyfleoedd hyfforddi, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (90%) eu bod yn darparu hyfforddiant mewnol i'w gweithwyr, felly mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn darparu cyfleoedd i'w gweithlu wella'u sgiliau.
- 5.16 Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod 68% o ymatebwyr yn annhebygol o allanoli unrhyw hyfforddiant neu addysg gweithlu gan ddarparwr fel coleg, prifysgol neu gwmni preifat. Mae hyn yn dangos bod llawer ohonynt naill ai'n amharod i dalu am gwmnïau allanol i ddarparu hyfforddiant i'w staff neu mae'n well ganddynt i'w gweithwyr gael hyfforddiant yn y gwaith.

Ffigur 5.3 Ydych chi'n meddwl bod angen cyfleuster Addysg Uwch newydd yng Nghonwy?



Ffynhonnell: Arolwg Anghenion Sgiliau Bwrdeistref Sirol Conwy (Ch1-Ch2 2018), Dadansoddiad Lichfields

- 5.17 Mae Ffigur 5.3 yn crynhoi barn yr ymatebwyr ar yr angen am gyfleuster Addysg Uwch newydd yn Sir Conwy. Roedd hanner yr ymatebwyr o'r farn nad oedd angen sefydlu cyfleuster Addysg Uwch newydd, gyda nifer yn crybwyll bod y cyfleusterau addysg presennol yn ymddangos yn

ddigonol - yn enwedig colegau Grŵp Llandrillo Menai. Dim ond 7% o ymatebwyr sy'n cefnogi cynnig CBSC ar gyfer cyfleuster Addysg Uwch.

Blaenoriaethau Sgiliau

- 5.18 Fel y dangosir yn Nhabl 5.2, gofynnwyd i ymatebwyr pa hyfforddiant a sgiliau y dylid eu blaenoriaethu gan ddarparwyr hyfforddiant yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Y hyfforddiant a'r sgiliau mwyaf cyffredin y teimlai'r ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â hwy oedd sgiliau cyfathrebu llafar (50%) ac yna cynllunio a threfnu (45%) a sgiliau technegol, ymarferol neu swydd-benodol (45%).

Tabl 5.2 Pa hyfforddiant a sgiliau y dylai darparwyr yng Ngogledd Cymru eu blaenoriaethu dros y 5 mlynedd nesaf?

Sgiliau / Hyfforddiant	% yr ymatebwyr sy'n teimlo y dylid blaenoriaethu'r sgiliau hyn
Sgiliau cyfathrebu llafar	50%
Sgiliau cynllunio a threfnu	45%
Sgiliau technegol, ymarferol neu swydd-benodol	45%
Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig	41%
Sgiliau trin cwsmeriaid	41%
Sgiliau datrys problemau	41%
Llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol / defnyddio TG	36%
Sgiliau TG neu feddalwedd uwch	36%
Sgiliau gweithio mewn tîm	36%
Sgiliau llythrennedd	36%
Sgiliau rheoli strategol	32%
Sgiliau rhifedd	32%
Sgiliau llafar Cymraeg	18%
Sgiliau iaith dramor	18%
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig	9%
Arall	9%

Ffynhonnell: Arolwg Anghenion Sgiliau Bwrdeistref Sirol Conwy (Ch1-Ch2 2018), Dadansoddiad Lichfields

- 5.19 Yn ddiddorol, mynegodd cyfran lai o'r busnesau fod angen rhaglenni hyfforddi ar gyfer sgiliau Cymraeg llafar / ysgrifenedig a sgiliau iaith dramor. Mae hyn er gwaethaf 60% o fusnesau yn nodi eu bod yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol.

Blaenoriaethau'r Dyfodol

- 5.20 Gofynnodd yr Arolwg Anghenion Sgiliau nifer o gwestiynau mewn perthynas ag anghenion a gofynion sgiliau dros y pum mlynedd nesaf. Dim ond 11% o'r ymatebwyr a oedd yn hyderus y bydd cyflenwad digonol o weithlu ar draws Gogledd Cymru i ateb gofynion eu busnesau dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn wahanol i 61% o ymatebwyr sy'n anghytuno y bydd cyflenwad digonol yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos bod gan fusnesau lleol bryderon difrifol ynghylch a fyddant yn gallu recriwtio'r staff cywir.
- 5.21 Mynegodd busnesau lleol bryderon nad yw'r sefyllfa'n debygol o wella yn y dyfodol. Dim ond 6% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo'n hyderus y bydd cyflenwad sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol yn bodloni gofynion eu busnes yn llawn. Mewn cyferbyniad, roedd 67% o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn debygol y byddant yn cael trafferth recriwtio pobl o weithlu'r dyfodol a fyddai'n bodloni gofynion eu busnesau yn y dyfodol.
- 5.22 Mae CBSC wedi pwysleisio pwysigrwydd sut y byddai nifer o ddatblygiadau allweddol ar draws Gogledd Cymru yn effeithio ar economi Conwy. Fel rhan o'r Arolwg Anghenion Sgiliau,

gofynnwyd i fusnesau lleol a allai prosiectau seilwaith mawr ei gwneud yn anodd i fusnesau lleol recriwtio staff. Mae hyn yn bennaf oherwydd y disgwyliad y bydd y prosiectau seilwaith mawr hyn yn arwain at fwy o alw am sgiliau'r gweithlu nag y gellir eu darparu. Nid oedd hanner yr ymatebwyr yn gallu penderfynu a fydd hyn yn digwydd. Mewn cyferbyniad, cytunodd traean o'r ymatebwyr (33%) y byddai prinder yn deillio o ddadleoli gweithwyr a busnesau presennol.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (59%) yn cytuno y gallai fod yn rhaid i fusnesau yng Ngogledd Cymru edrych i rywle arall am sgiliau'r gweithlu oherwydd efallai nad oes cyflenwad lleol digonol.

Crynodeb

- 5.23 Datgelodd canfyddiadau'r Arolwg fod yna broblem amlwg i fusnesau ynglŷn â diffyg sgiliau arbenigol ymhlith gweithlu'r Sir. Mae'n amlwg o farn yr ymatebwyr fod gan lawer o weithluoedd y Sir a'r rhanbarthau ehangach sgiliau gweithlu mwy cyffredinol yn enwedig mewn perthynas â setiau sgiliau STEM.
- 5.24 Tynnodd y rhan fwyaf o ymatebwyr sylw at y ffaith eu bod yn darparu hyfforddiant mewnol ar gyfer eu gweithwyr ond eu bod yn annhebygol o allanoli cyrsiau hyfforddi i gwmnïau allanol, er bod ymatebwyr yn mynegi pryderon am staff sydd angen mwy o hyfforddiant yn y gwaith i wella eu cynhyrchiant. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bryderon na fydd y prinder sgiliau a phobl yn gwella yn y dyfodol ac na fyddant yn bodloni gofynion eu hanghenion busnes yn llawn o ganlyniad.

6.0 Cyflenwad Cyfredol o Sgiliau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghonwy

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y cyflenwad cyfredol o sgiliau Addysg Bellach [AB] ac Addysg Uwch [AU] yng Nghonwy a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Mae'n hanfodol bod Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cael eu hystyried gan fod y sefydliadau hyn yn ganolog i fodloni gofynion sgiliau'r dyfodol ar gyfer Conwy.
- 6.2 Mae'r adran hon yn amlinellu'r trafodaethau y mae'r Mackinnon Partnership wedi eu cynnal gyda darparwyr addysg lleol, cynrychiolwyr sgiliau ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru [NWEAB] a Llywodraeth Cymru.

Addysg Bellach

- 6.3 Mae darpariaeth AB Conwy yn nwylo Coleg Llandrillo, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai [GLM]. Y grŵp, sy'n cynnwys Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor, yw sefydliad AB mwyaf Cymru ac un o'r grwpiau coleg AB mwyaf yn y DU. Mae GLIM yn cyflogi 2,000 o staff ac yn cyflwyno cyrsiau i tua 27,000 o fyfyrwyr (gan gynnwys dros 1,000 o fyfyrwyr Addysg Uwch) ar draws Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd³³.
- 6.4 Mae Coleg Llandrillo yn cynnig dros 4,000 o gyrsiau llawn amser a rhan-amser gan gynnwys:
- Cyrsiau academiaidd ar lefel A, a thrwy'r Fagloriaeth Ryngwladol;
 - Cyrsiau galwedigaethol trwy BTEC a NVQs, Graddau Cenedlaethol Uwch a Sylfaen, yn ogystal â phrentisiaethau; a,
 - Cynigir Graddau Anrhydedd ac Astudiaethau Ôl-raddedig mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru, Glyndŵr, Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.
- 6.5 Agorodd Canolfan Brifysgol £4.5m Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos (wedi'i lleoli yn Sir Conwy) ym mis Medi 2014, fel menter ar y cyd rhwng y coleg a Phrifysgol Bangor. Mae'n cynnig ystod o gyrsiau gradd ac Addysg Uwch eraill, i gyd yn canolbwyntio ar wasanaethu'r economi leol gan gynnwys:
- Adeiladu:
 - (a) BSc Rheoli Adeiladu Masnachol
 - (b) BEng Peirianeg Sifil
 - (c) HNC Adeiladu
 - (d) HNC Peirianeg Sifil
 - Peirianeg:
 - (a) HNC Peirianeg Gyffredinol
 - Busnes / Twristiaeth:
 - (a) BA Rheoli Teithio a Thwristiaeth
 - (b) BA Rheoli Llyfrgell a Gwybodaeth
 - (c) FdA³⁴ Rheoli Llyfrgell a Gwybodaeth

³³ <http://iell.co.uk/llandrillo/>

³⁴ Gradd Sylfaen (Celfyddydau)

- (d) FdA Rheoli Adnoddau Dynol mewn Busnes
- (e) FdA Rheoli Cyfrifeg mewn Busnes
- (f) FdA Rheoli Manwerthu mewn Busnes
- (g) FdSc³⁵ Rhwydweithio Cyfrifiadura
- (h) BA Rheolaeth Teithio a Thwristiaeth
- (i) BA Rheoli Llyfrgell a Gwybodaeth
- (j) FdA Rheoli Llyfrgell a Gwybodaeth
- (k) FdA Rheoli Adnoddau Dynol mewn Busnes
- (l) FdA Rheoli Cyfrifeg mewn Busnes
- (m) FdA Rheoli Manwerthu mewn Busnes
- (n) FdSc Rhwydweithio Cyfrifiadura

Gofal Iechyd:

- (a) FdSc Ymarfer Gofal Iechyd
- (b) FdSc Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Arall:

- (a) FdSc Plismona
- (b) FdA Ffotograffiaeth
- (c) Tystysgrif Addysg i Raddedigion [i.e. hyfforddiant athrawon]

- 6.6 Canolfan y Brifysgol yn Rhos hefyd yw prif ffocws marchnad myfyrwyr rhyngwladol y Grŵp. Mae'r Grŵp yn cyhoeddi Prosiectws Rhyngwladol ar wahân, gan hyrwyddo ei hun fel 'Llandrillo Menai International' ac mae'n canolbwyntio ei sylw ar fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae croeso'r Pennaeth yn nodi "Mae'r Coleg yn gyn-enillydd Gwobr Beacon y Cyngor Prydeinig am Gymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol".

Cyrsiau Arbenigol

- 6.7 Fel y soniwyd eisoes, mae CBSC yn darparu tri o gampysau GLIM, yn Abergele, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn. Mae Tabl 6.1 yn nodi'r cyrsiau y mae GLIM yn eu darparu, yn seiliedig ar faes academiaidd / diwydiant. O 2017/18, roedd traean o'r holl gyrsiau gradd a gynigiwyd gan GLIM yn gysylltiedig â'r meysydd academiaidd canlynol:
- Celf a Dylunio a Ffotograffiaeth (11%);
 - Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol (11%); and,
 - Adeiladu a Thechnoleg Ddigidol (11%).

³⁵ Gradd Sylfaen (Gwyddorau)

Tabl 6.1 Cyrsiau a gynigir gan Grŵp Llandrillo Menai yn seiliedig ar Faes Academaidd (2018/19)

Maes Academaidd	Graddau	Cymwysterau Proffesiynol	Prentisiaeth
Mynediad i Addysg Uwch	2%	0%	0%
Amaethyddiaeth	0%	0%	2%
Astudiaethau Anifeiliaid a Nyrsio Milfeddygol	0%	0%	0%
Celf a Dylunio a Ffotograffiaeth	11%	0%	0%
Busnes, Rheolaeth, y Gyfraith a Chyllid	5%	47%	23%
Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol	11%	4%	12%
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	11%	19%	18%
Cwnsela	2%	0%	0%
Astudiaethau Pobl Fyddar ac Iaith Arwyddion	4%	2%	0%
Peirianeg a Thechnoleg Pŵer	7%	4%	12%
Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)	2%	0%	0%
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	9%	11%	19%
Lletygarwch ac Arlwyio	5%	5%	5%
Ieithoedd	0%	4%	0%
Astudiaethau Llyfrgell a Gwybodaeth	7%	0%	0%
Technoleg Forol	0%	4%	0%
Cynhyrchu a Datblygu'r Cyfryngau	7%	4%	0%
Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth a Thechnoleg	2%	0%	0%
Yr Heddlu a Gwasanaethau Cyhoeddus	4%	0%	0%
Gwasanaeth Manwerthu a Chwsmeriaid	0%	5%	5%
Chwaraeon ac Addysg Awyr Agored	5%	0%	0%
Hyfforddiant Athrawon	5%	0%	0%
Teithio a Thwristiaeth	4%	0%	0%
Arall	0%	0%	7%

Ffynhonnell: Grŵp Llandrillo Menai / Dadansoddiad Lichfields (2018/19 - blwyddyn academaidd)

- 6.8 Mae mwyafrif y cyrsiau gradd yn cynnig opsiynau llawn amser a rhan-amser a fydd yn caniatáu hyblygrwydd i fyfyrwyr. Mewn cyferbyniad, mae bron i hanner y cymwysterau proffesiynol a gynigir gan GLIM yn ymwneud â Busnes, Rheolaeth, y Gyfraith a Chyllid ac yna Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (19%) ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (11%). Mae'r rhain i gyd yn gyrsiau sy'n bwydo i mewn i sectorau twf allweddol a nodwyd gan CBSC, yn enwedig Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adeiladu.
- 6.9 Mae prentisiaethau yn y categorïau hyn yn gysylltiedig â nifer o sectorau twf allweddol CBSC gyda'r mwyafrif o brentisiaethau yn GLIM yn darparu ar gyfer y pum set sgiliau canlynol:
- Busnes, Rheolaeth, y Gyfraith a Chyllid (23%);
 - Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (19%);
 - Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (18%);
 - Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol (12%); a,
 - Peirianeg a Thechnoleg Pŵer (12%).
- 6.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd dros y 5 mlynedd nesaf sydd ar gael i bobl o bob oed³⁶.
- 6.11 Mae Coleg Cambria, (coleg mawr arall sydd â chyrhaeddiad rhanbarthol) hefyd wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru, er nad oes un o'i bum campws yng Nghonwy. Mae ganddo dros 7,000 o

³⁶ Llywodraeth Cymru (2017): Llyfryn Cyflogwyr 2017

fyfyrwyr amser llawn ac 20,000 o fyfyrwyr rhan-amser³⁷. Mae Coleg Cambria mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai a Dysgu Oedolion Cymru yn darparu rhaglenni hyfforddi ar draws chwe sir Gogledd Cymru (sydd wrth gwrs yn cynnwys Conwy) i helpu i wella Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion [SEE]. Mae Coleg Cambria yn darparu hyfforddiant galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar rai o sectorau allweddol CBSC gan gynnwys: Gweithgynhyrchu Uwch ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

- 6.12 Fel y nodir yn Nhabl 6.2, mae GLIM yn darparu cyrsiau sy'n arlwyo ar gyfer sgiliau a fyddai'n berthnasol i'r sectorau twf allweddol a nodwyd gan CBSC. Mae'n bwysig nodi y gallai nifer o gyrsiau fod yn berthnasol i fwy nag un sector fel cyrsiau cysylltiedig â pheirianeg. Er enghraifft, mae cyrsiau mewn peirianeg yn debygol o ddarparu setiau sgiliau ar gyfer y diwydiannau Adeiladu a Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.
- 6.13 Mae Tabl 6.2 yn dangos bod bron i hanner (48.0%) y cyrsiau yn GLIM sy'n gysylltiedig â'r sectorau twf allweddol o fewn y sectorau Adeiladu a Chreadigol a Digidol. Mae gan y ddau sector gyfradd cyflogaeth uwchlaw lefelau'r DU fel y nodir yn Nhabl 3.8.

Tabl 6.2 Cyrsiau a gynigir gan Grŵp Llandrillo Menai sy'n gysylltiedig â Sectorau Twf Allweddol CBSC

Sectorau Twf Allweddol	Graddau	Cymwysterau Proffesiynol	Prentisiaeth	Cyfanswm y Cyrsiau	Cyfanswm y Cyrsiau (%)
Ynni a'r amgylchedd	4	4	7	15	15.6%
Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch	10	2	0	12	12.5%
Adeiladu	6	6	11	23	24.0%
Creadigol a digidol	17	3	3	23	24.0%
Iechyd a gofal cymdeithasol	5	5	3	13	13.5%
Twristiaeth a lletygarwch	5	0	0	5	5.2%
Bwyd a diod	3	2	0	5	5.2%
Cyfanswm	50	22	24	96	

Ffynhonnell: Grŵp Llandrillo Menai / Dadansoddiad Lichfields

- 6.14 O'n trafodaethau gyda datblygwyr allweddol yng Ngogledd Cymru, pwysleisiwyd bod GLIM eisoes yn darparu cyrsiau sy'n bodloni eu hanghenion sgiliau. At hynny, mae gan GLIM ystod o wasanaethau arbenigol ar gael ar nifer o'u safleoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth ymgynghorol yn ogystal â chyfle i fusnesau lleol ddefnyddio peiriannau a chyfleusterau blaengar. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys:
- Canolfan Arloesi Menai [CAM] – a sefydlwyd yn 2005 ac sydd wedi'i leoli ar CAM Campws Llangefni. Mae'r ganolfan hon yn canolbwyntio ar gwmni gweithgynhyrchu a dylunio blaengar i helpu i ddatblygu syniadau ac arbenigedd cleientiaid yn gynhyrchion gwerthadwy go iawn. Nod y ganolfan yw annog arloesedd, entrepreneuriaeth a chreadigrwydd ar gyfer y sector gweithgynhyrchu. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn y ganolfan yn cynnwys dylunio cynnyrch, sganio 3D, ymgynghoriaeth gweithgynhyrchu, prototeipio cyflym a hyfforddiant, i gyd gan ddefnyddio'r dechnoleg a'r meddalwedd ddiweddaraf. Er ei fod y tu allan i'r Sir, mae cysylltiad Gogledd Cymru yn golygu y gallai CBSC weithio mewn partneriaeth i wella cyfleoedd yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, yn enwedig gyda CAM.
 - Canolfan Technoleg Bwyd [FTC] - mae'r safle hwn wedi'i leoli ar gampws Llangefni Llangefni ac fe'i sefydlwyd yn 1999. Mae'r wefan hon yn canolbwyntio'n bennaf ar drosglwyddo gwybodaeth wyddonol i'r diwydiant bwyd yng Nghymru a ledled y DU. Mae

³⁷ <https://www.cambria.ac.uk/>

cyfleusterau FTC yn cynnwys neuaddau prosesu ar gyfer cig ffres, cynhyrchion llaeth, cegin brawf ar gyfer datblygu cynnyrch bwyd parod a labordy dadansoddol. Gan fod gan Sir Conwy sector bwyd a diod cryf eisoes, gallai'r FTC chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu partneriaethau allweddol gyda busnesau lleol yng Nghonwy i ysgogi twf yn y sector twf allweddol hwn.

- Canolfan Ynni, Coleg Menai - Mae Canolfan Ynni Coleg Menai wedi'i lleoli ar safle Llangejni. Mae'n gyfleuster i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen i ategu cenedlaeth newydd o gynhyrchu ynni. Mae rhaglenni astudio ar gael i fyfyrwyr llawn amser a rhan-amser sy'n dymuno chwilio am waith yn y sector ynni sy'n datblygu yng Ngogledd Cymru. Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi gweithio'n agos gyda'r Academi Sgiliau Cenedlaethol Niwclear [NSAN] a COGENT, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y Diwydiant Niwclear, i ddarparu cymwysterau sy'n bodloni'r galw sgiliau disgwylidig yn y sector datgomiynu. Mae hyfforddiant arbenigol sy'n cynnwys technolegau offeryniaeth a rheolaeth, weldio a gwneuthuriad yn ogystal ag ynni cynaliadwy yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno'n barhaus yn y ganolfan hon. Mae gan hon gysylltiadau cryf a chlir iawn i wella'r sector 'ynni a'r amgylchedd' sy'n sbardun twf allweddol yng Ngogledd Cymru.
- Canolfan Peiriannau Trwm, Llangejni - Mewn partneriaeth â Choleg Adeiladu Cenedlaethol [NCC] CITB, mae Coleg Menai bellach yn cynnig ystod o raglenni hyfforddiant adeiladu arbenigol. Mae'r cyrsiau, a ddatblygwyd i gefnogi'r Rhaglen Ynys Ynni, yn cynnwys gweithio gwahanol beiriannau trwm. Yn y degawd nesaf bydd galw mawr am y sgiliau hyn yn ystod cam adeiladu'r prosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn cysylltu'n gryf â'r sectorau 'Ynni a'r Amgylchedd' ac 'Adeiladu' sy'n caniatáu ar gyfer sgiliau trosglwyddadwy.

Addysg Uwch

- 6.15 Yn 2017, cyhoeddodd CBSC ei Strategaeth Economaidd ddrafft 2017-2027 sydd ag uchelgeisiau i "sefydlu presenoldeb Addysg Uwch penodol yn y Sir" trwy wella sgiliau'r gweithlu lleol i gwrdd â'r anghenion sgiliau sy'n codi o'r sectorau twf allweddol hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan Sir Conwy unrhyw sefydliadau AU o fewn ei ffin awdurdod lleol - er fel y nodir uchod, mae eisoes ddau sefydliad AU sefydledig mewn rhannau eraill o Gogledd Cymru.
- 6.16 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarpariaeth Addysg Uwch ledled Cymru ac ar hyn o bryd mae'n darparu cyllid ar gyfer prifysgolion Bangor a Glyndŵr Wrecsam. Mae'r ddwy brifysgol hyn yn denu myfyrwyr a chwmnïau o bob cwr o Gymru a gweddill y DU.

Prifysgol Bangor

- 6.17 Sefydlwyd Prifysgol Bangor yng Ngwynedd yn 1884 ac ar hyn o bryd mae'n gartref i dros 11,000 o fyfyrwyr o 85 o wahanol wledydd³⁸. Mae lleoliad Bangor ar arfordir Gogledd Cymru wedi ei helpu i ddatblygu cyfadran Gwyddorau Eigion enwog. Mae hefyd wedi meithrin enw da am Gyfrifeg a Chyllid, Gwyddor Chwaraeon a Pheirianneg Electronig. Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol diweddaraf yn gosod Prifysgol Bangor yn y 15 prifysgol orau yn y DU ar gyfer boddhad myfyrwyr, a'r gorau yng Nghymru. Cynigir cyrsiau dysgu Saesneg a chymorth am ddim i fyfyrwyr rhyngwladol, sy'n naturiol yn denu amrywiaeth eang o fyfyrwyr o dramor.

Cyrsiau Arbenigol

- 6.18 Mae Tabl 6.3 yn nodi'r cyrsiau y mae Prifysgol Bangor yn eu darparu yn seiliedig ar faes academiaidd / diwydiant. O 2018/19, roedd dros hanner yr holl gyrsiau gradd israddedig a gynigiwyd gan Brifysgol Bangor yn gysylltiedig â'r meysydd academiaidd canlynol:

³⁸ <http://www.studyin-uk.com/profiles/university/bangor/>

- Ieithoedd, Llenyddiaeth ac Ieithyddiaeth (26.0%);
- Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol (14.6%); a,
- Busnes (12.4%).

6.19 Mewn cyferbyniad, mae yna gyfansoddiad gwahanol o ran cyfran y graddau ôl-raddedig, a gynrychiolir fwyaf yn y meysydd academiaidd canlynol:

- Busnes (22.4%);
- Addysg a Datblygiad Dynol (15.6%); a,
- Seicoleg (9.8%).

Tabl 6.3 Darpariaeth cyrsiau gradd gan Brifysgol Bangor (2018/19)

Meysydd Pwnc	Graddau Israddedig (% o gyfanswm y Cyrsiau)	Graddau Ôl-raddedig (% o gyfanswm y Cyrsiau)
Busnes	12.4%	22.4%
Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig	3.7%	3.9%
Addysg a Datblygiad Dynol	3.0%	15.6%
Gwyddorau Iechyd	3.3%	3.9%
Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol	14.6%	8.3%
Ieithoedd, Llenyddiaeth ac Ieithyddiaeth	26.0%	6.8%
Y Gyfraith	4.6%	7.3%
Gwyddorau Meddygol	0.9%	3.4%
Cerddoriaeth a Chyfyngau	9.8%	3.4%
Gwyddorau Naturiol	9.2%	8.3%
Gwyddorau Eigion	3.3%	2.4%
Seicoleg	3.7%	9.8%
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer	2.4%	2.0%
Cymraeg	3.3%	2.4%

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor / Dadansoddiad Lichfields

- 6.20 Fel y dangosir yn Nhabl 6.3, mae'r mwyafrif o raddau israddedig yn canolbwyntio ar y gwyddorau cymdeithasol ac ieithoedd sy'n adlewyrchu'r galw am y cyrsiau hyn, mae Prifysgol Bangor hefyd yn darparu cyrsiau arbenigol mewn Gwyddorau Eigion, gyda'r Ysgol Gwyddorau Eigion ag un o adrannau Gwyddor Morol mewn prifysgolion yn Ewrop. Mae cyrsiau'r adran hon yn cyd-fynd yn dda â sbardun CBSC am dwf economaidd yn y sector ynni a'r amgylchedd.
- 6.21 Mae Tabl 6.4 yn dangos bod bron i ddwy ran o dair (61.5%) o gyrsiau israddedig ym Mhrifysgol Bangor sy'n gysylltiedig â sectorau twf allweddol o fewn y sector Creadigol a Digidol, ac yna Ynni a'r Amgylchedd (18.9%) a Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (9.1%).
- 6.22 O ran graddau ôl-raddedig, mae'r cyfansoddiad wedi'i ddsbarthu'n fwy cyfartal i gyrsiau sy'n gysylltiedig â'r pedwar sector twf allweddol a amlinellir uchod:
- Ynni a'r Amgylchedd;
 - Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch;
 - Creadigol a Digidol; a,
 - Sectorau Iechyd a Chymdeithasol.

Tabl 6.4 Cyrsiau a gynigir gan Brifysgol Bangor sy'n gysylltiedig â Sectorau Twf Allweddol CBSC

	Cyfanswm Nifer y Cyrsiau Israddedig (%)	Cyfanswm y Cyrsiau Ôl- raddedig (%)
Ynni a'r amgylchedd	18.9%	28.0%
Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch	9.1%	21.7%
Adeiladu	Amh	Amh
Creadigol a digidol	61.5%	27.3%
Iechyd a gofal cymdeithasol	10.6%	23.1%
Twristiaeth a lletygarwch	Amh	Amh
Bwyd a diod	Amh	Amh

Ffynhonnell: Prifysgol Bangor / Dadansoddiad Lichfields

- 6.23 Mae Prifysgol Bangor eisoes wedi ffurfio cysylltiadau cryf â'r prif ddatblygiadau a grynhoir yn Adran 4.0. Er enghraifft, mae M-Sparc, a nodwyd fel un o'r prif ddatblygiadau ledled Gogledd Cymru, yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol Bangor a daeth yn weithredol ar ddiwedd 2017. Mae'r safle yn gartref i Barc Gwyddoniaeth ar Ynys Môn gyda ffocws ar ysgogi twf mewn gwyddorau sy'n seiliedig ar wybodaeth, gyda ffocws cynnar ar sectorau ynni carbon isel, yr amgylchedd a TGCh. Mae gan M-Sparc gysylltiadau cryf iawn â Phrifysgol Bangor, yn enwedig gyda Cholegau Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol, Gwyddorau Naturiol a Gwyddorau Ymddygiadol.
- 6.24 Fel y soniwyd yn Adran 4.0, mae Prifysgol Bangor yn gartref i sefydliad ymchwil niwclear cyntaf Cymru (y Sefydliad Ymchwil Niwclear). Sefydlwyd y cyfleuster gyda chyllid gan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Phrifysgol Bangor. Nod y Sefydliad Ymchwil Niwclear yw manteisio ar fuddsoddiadau cyfalaf o ddatgomisiynu niwclear sy'n digwydd gerllaw yn Ynys Môn.
- 6.25 Fel rhan o bresenoldeb y Brifysgol yn y sector ynni ac amgylchedd, mae Prifysgol Bangor a Choleg Imperialaidd Llundain wedi gweithio mewn partneriaeth â Hitachi-GE i ddarparu arbenigedd a chefnogaeth dechnegol gyda Chanolfan Ymchwil a Rhwydwaith Ymchwil Adweithyddion Dŵr Berw yn cael ei sefydlu³⁹. Mae'r Rhwydwaith yn dwyn ynghyd sylfaen ymchwil y DU gydag ymchwilwyr niwclear Hitachi i helpu i ddatblygu cenedlaethau'r dyfodol o dechnoleg Adweithyddion Dŵr Berw.

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

- 6.26 Rhoddwyd statws prifysgol yn ffurfiol i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam [WGU] yn 2008, er bod gwasanaethau addysg wedi cael eu cynnig o safleoedd Wrecsam ers 1887, pan adwaenid y brifysgol fel Ysgol Wyddoniaeth a Chelf Wrecsam. Yn flaenorol, adwaenid WGU hefyd fel Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru [NEWI]. Ar hyn o bryd, nid oes gan WGU bresenoldeb gweithredol yn CBSC. Lleolir WGU yn Sir Wrecsam gerllaw gyda'r ddau gampws arall yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
- 6.27 Mae gan WGU dri champws sy'n adlewyrchu arbenigedd y Brifysgol yn ogystal â darparu nifer o gyfleusterau i fyfyrwyr. Er bod mwyafrif y cyrsiau'n cael eu cynnal ar gampws Wrecsam, mae yna hefyd gampws gwledig ymroddedig yn Llaneurgain sy'n arbenigo mewn gwyddor anifeiliaid a bioamrywiaeth, tra bod canolfan ymchwil optoelectroneg arall wedi'i lleoli yn Llanelwy. Rhennir y Brifysgol yn bedair ysgol academiaidd - Ysgol y Celfyddydau Creadigol, Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd, Ysgol Gwyddoniaeth Gymhwysol, Cyfrifiadureg a Pheirianneg ac Ysgol Fusnes Gogledd Cymru.

³⁹ <https://www.bwrhub.ac.uk/en/about/>

Cyrsiau Arbenigol

6.28 Mae Tabl 6.5 yn nodi'r cyrsiau israddedig y mae WGU yn eu darparu yn seiliedig ar faes academiaidd / diwydiant. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19, roedd dros draean o'r holl gyrsiau gradd israddedig a gynigiwyd gan WGU yn gysylltiedig â'r meysydd academiaidd canlynol:

- Celf a Dylunio (16.7%);
- Iechyd, Seicoleg a Gofal Cymdeithasol (11.8%); a,
- Pheirianeg (9.7%).⁴⁰

Tabl 6.5 Cyrsiau israddedig a gynigir gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam yn seiliedig ar Faes Academiaidd (2018/19)

Meysydd Pwnc	Graddau Israddedig (% o gyfanswm y Cyrsiau a ddarparwyd)
Bioleg Anifeiliaid a Phlanhigion	4.2%
Celf a Dylunio	16.7%
Yr Amgylchedd Adeiledig	4.2%
Busnes a Rheoli	8.3%
Meddygaeth Gyflenwol	3.5%
Cyfrifiadura	9.7%
Technoleg Cyfryngau Creadigol	6.9%
Astudiaethau Addysg, Teulu a Phlentyndod	6.9%
Peirianeg	9.7%
Iechyd, Seicoleg a Gofal Cymdeithasol	11.8%
Dyniaethau	5.6%
Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau	2.1%
Gwyddoniaeth a'r Amgylchedd	1.4%
Cymdeithas	4.9%
Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer	4.2%

Ffynhonnell: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam / Dadansoddiad Lichfields

6.29 Fel y nodir yn Nhabl 6.6, mae dros hanner y cyrsiau ôl-raddedig a ddarperir gan WGU yn y meysydd pwnc canlynol:

- Peirianeg (18.8%);
- Iechyd a Gwyddorau Meddygol (14.6%);
- Gofal Cymdeithasol (14.6%); a,
- Busnes a Rheoli (10.4%).

6.30 Mae gan WGU ffocws cryf ar raddau gwyddoniaeth peirianeg, iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig sydd wedi'u cysylltu â sectorau twf targed Conwy.

⁴⁰ Gwybodaeth a gafwyd o wefan Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Tabl 6.6 Cyrsiau ôl-raddedig a gynigir gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam yn seiliedig ar y Maes Academaidd

Meysydd Pwnc	Graddau Ôl-raddedig (% o gyfanswm y Cyrsiau a ddarparwyd)
Celf a Dylunio	6.3%
Yr Amgylchedd Adeiledig	2.1%
Busnes a Rheolit	10.4%
Cyfrifiadura	12.5%
Cyfryngau Creadigol	2.1%
Addysg	10.4%
Peirianeg	18.8%
Astudiaethau Iechyd a Meddygol	14.6%
Dyniaethau	2.1%
Seicoleg	2.1%
Gofal Cymdeithasol	14.6%
Cyfiawnder Troseddol	2.1%
Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer	2.1%

Ffynhonnell: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam / Dadansoddiad Lichfields

6.31 Mae Tabl 6.7 yn dangos bod mwy na hanner y cyrsiau israddedig yn LIC sy'n gysylltiedig â'r sectorau twf allweddol o fewn y sector Creadigol a Digidol (51.6%), wedi'i ddilyn gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol (18.3%), Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (15.1%) a'r sectorau Adeiladu (8.6%).

6.32 O ran graddau ôl-raddedig, mae cyfansoddiad cyrsiau sy'n gysylltiedig â sectorau twf allweddol yn canolbwyntio ar y sectorau canlynol: Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (37.5%), Creadigol a Digidol (29.2%), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (29.2%) ac Adeiladu (4.2%).

Tabl 6.7 Cyrsiau a gynigir gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam sy'n gysylltiedig â Sectorau Twf Allweddol CBSC (2018/19)

Sector Twf Allweddol	Cyfanswm Nifer y Cyrsiau Israddedig (%)	Cyfanswm y Cyrsiau Ôl-raddedig (%)
Ynni a'r amgylchedd	8.6%	0.0%
Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch	15.1%	37.5%
Adeiladu	6.5%	4.2%
Creadigol a digidol	51.6%	29.2%
Iechyd a gofal cymdeithasol	18.3%	29.2%
Twristiaeth a lletygarwch	0.0%	0.0%
Bwyd a diod	0.0%	0.0%

Ffynhonnell: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam / Dadansoddiad Lichfields

6.33 Un o brif elfennau strategaeth WGU yw 'Campws 2025' sy'n nodi uchelgais ac ymrwymiad y Brifysgol i wella pob rhan o'u campysau. Campws 2025 yw Strategaeth Amgylchedd Ystadau a Dysgu WGU ac mae egwyddorion tebyg o fewn Fframwaith Strategol y Brifysgol yn sail iddo (mae'r ddogfen hon yn nodi uchelgais y Brifysgol a bydd yn llywio datblygiad rhwng 2015 a 2020). Mae Campws 2025 yn canolbwyntio ar wella profiad y myfyriwr drwy ddarparu isadeiledd gwell sy'n cefnogi dysgu a chyfleusterau o'r radd flaenaf.

6.34 Mae gan WGU ystod gynyddol o bartneriaethau â phrifysgolion, colegau a darparwyr addysg preifat mewn mannau eraill yn y DU a thu hwnt. Mae gan y Brifysgol gysylltiad sefydledig â GLIM ar nifer o gyrsiau sy'n cynnwys:

- BA (Anrh) Polisi Cyhoeddus a Chymdeithasol (llawn amser);
- HNC Technoleg Trydanol ac Electronig (rhan-amser);

- HNC Technoleg Mecanyddol (rhan-amser);
- HNC Peirianeg Sifil (rhan-amser);
- HNC Astudiaethau Adeiladu (rhan-amser); a,
- FdA Celf a Dylunio.

- 6.35 Mae'n amlwg bod y cyrsiau hyn wedi'u cysylltu'n gryf â nifer o ysgogwyr twf allweddol Conwy fel y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Adeiladu a Chreadigol a Digidol. O drafodaethau gyda'r Brifysgol, gellid canolbwyntio marchnadoedd posibl yn y dyfodol ar alw mewn peirianeg gymhwysol, TG (e.e. seiber-ddiogelwch), digidol, opteg.
- 6.36 Mae'r brifysgol yn ceisio mynd i'r afael â'r galw hwnnw yn y dyfodol, naill ai ar ei phen ei hun neu mewn partneriaeth (er enghraifft gyda GLIM). Mae hyn yn golygu ar lefel israddedig a thrwy brentisiaethau. Er enghraifft, maent yn y camau cynnar o drafod prentisiaeth cyfansoddion newydd gyda GLIM - i gwrdd â maes o alw yn y dyfodol nad yw fel arall yn cael ei ddiwallu yng Ngogledd Cymru.

Ymgynghoriad â Darparwyr Addysg

- 6.37 Cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch gynrychiolwyr o brifysgolion Bangor a Glyndŵr Wrecsam a Grŵp Llandrillo Menai, y gallai pob un ohonynt yn rhesymol ddisgwyl cymryd rhan mewn unrhyw ganolfan Addysg Uwch newydd yn Sir Conwy. Yn absenoldeb tystiolaeth o angen sylweddol nas diwallwyd, ni allai unrhyw un o'r tri weld achos dros greu cyfleuster Addysg Uwch newydd.
- 6.38 Er eu bod yn gystadleuwyr mewn sawl ffordd, mae'r ddwy brifysgol yn cydweithio â'i gilydd, a hefyd â Grŵp Llandrillo Menai: mae llawer o weithio ar y cyd. Er enghraifft, mae'r Coleg a Phrifysgol Bangor yn gweithredu ysgolion rheoli cyflenwol ym Mangor; mae'r ddwy brifysgol yn cydweithio ar hyfforddiant ar gyfer proffesiynau gofal iechyd perthynol; ac mae'r tri phartner yn gweithio (gyda Choleg Cambria) ar brosiect a ariennir gan yr UE o'r enw The Academy i ddarparu hyfforddiant lefel uwch pwrpasol i fusnesau sy'n tyfu. Felly mae sail gref ar gyfer cydweithio pellach ar ddarpariaeth Addysg Uwch yng Nghonwy.
- 6.39 Tynnodd Coleg Llandrillo sylw at y ffaith ei fod eisoes yn gweithredu canolfan Addysg Uwch o fewn Sir Conwy, ei Ganolfan Prifysgol £4.5m yn Llandrillo-yn-Rhos, gan nodi, os yw'r Cyngor yn credu bod y ganolfan yn methu mewn rhyw ffordd, man cychwyn amlwg yw trafod gyda'r coleg pa sgôp sydd i newid ffocws y ganolfan. Nododd y Coleg y byddai'n hapus i gael y sgwrs honno gyda CBSC.
- 6.40 Mae'r gwahanol sefydliadau i gyd yn monitro'r galw newidiol am eu gwasanaethau yn rheolaidd. Mae WGU, er enghraifft, wedi nodi galw newydd posibl mewn rhai agweddau ar beirianeg gymhwysol, TG (seiber-ddiogelwch yn bennaf), sgiliau digidol, ac opteg. Ym mhob achos mae'r Brifysgol yn ceisio mynd i'r afael â'r galw hwnnw, naill ai ar ei phen ei hun neu mewn partneriaeth (er enghraifft gyda Grŵp Llandrillo Menai). Mae hyn yn golygu ar lefel israddedig a thrwy brentisiaethau - lle er enghraifft, mae'r Brifysgol yn y camau cynnar o drafod prentisiaeth Gyfansawdd newydd gyda'r Coleg.
- 6.41 Nid oedd unrhyw un o'r tri sefydliad, yn awgrymu bod unrhyw angen newydd na ellir ei reoli drwy'r broses bresennol hon neu rywbeth tebyg iddo, h.y. dim angen sy'n wahanol o ran graddfa na natur, ac sydd felly angen canolfan gwbl newydd yng Nghonwy.
- 6.42 Y tu hwnt i unrhyw asesiad o gynnydd mewn galw, mae cwestiwn hefyd ynglŷn â chynnal y lefelau Addysg Uwch presennol, o leiaf ar gyfer y coleg. Ochr yn ochr â dirywiad demograffig hirdymor yng Ngogledd Cymru (h.y. y gostyngiad araf yn nifer y bobl ifanc sy'n dominyddu mynediad i Addysg Uwch), mae'r sector yn debygol o weld gostyngiad yn nifer y myfyrwyr hŷn

(21 oed neu hŷn) sy'n mynychu cyrsiau mynediad i Addysg Uwch. Mae hynny wedi bod yn farchnad fawr ers blyneddau lawer, gan fanteisio ar y rhai a gollodd allan yn gynharach, ond wrth i'r gyfran o ymadawyr ysgol sy'n mynychu Addysg Uwch gynyddu, mae'r farchnad myfyrwyr hŷn hefyd wedi dirywio. Mae wedi bod yn rhan bwysig o'r hyn y mae Coleg Llandrillo yn ei wneud, wrth iddo geisio ehangu mynediad a chyfranogiad, gan ategu at waith eu partneriaid prifysgol, yn enwedig Bangor.

- 6.43 Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae'r coleg yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i archwilio'r cwmpas ar gyfer prentisiaethau lefel gradd, sy'n newydd-deb yng Nghymru ar hyn o bryd, ond serch hynny yn rhan gynyddol o'r byd addysg yn Lloegr.

Cyfleoedd yn y sector iechyd

- 6.44 Roedd y tri sefydliad yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r posibilrwydd o wneud y sector iechyd - ac yn benodol ysgol feddygol bwrpasol - yn gonglfaen unrhyw gyfleuster Addysg Uwch newydd yng Nghonwy.

- 6.45 Mae'r ddwy brifysgol yn ymwybodol iawn o'r farchnad; ond dywedwyd nad y prif gyfyngiad ar dwf yw cyfleusterau - adeiladau ac offer - ond yn hytrach diffyg lleoliadau. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr meddygol fod ar leoliadau strwythuredig fel rhan o'u hastudiaethau, wedi'u goruchwyllo'n briodol gyda chanlyniadau dysgu manwl, ac mae llawer o gyflogwyr y GIG yn ei chael hi'n anodd cynnig mwy o leoliadau na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd. Gan na all Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ateb y galw presennol, byddai unrhyw sefydliad newydd yng Nghonwy yn wynebu'r un broblem yn union.

- 6.46 Byddai angen i unrhyw gynnig gan Fwrdd Iechyd i gynyddu nifer y lleoedd meddygol yng Ngogledd Cymru gael ei gymeradwyo gan gorff newydd, sef Addysg a Gwellu Iechyd Cymru [HEIW], sydd wedi cymryd y rôl oddi wrth y Gwasanaethau Datblygu Gweithlu ac Addysg. Fel sydd yn wir yn awr, byddai disgwyl i HEIW graffu'n ofalus iawn ar unrhyw gynigion.

Mecanweithiau cyllido

- 6.47 Byddai angen siapiau'r pecyn ariannu ar gyfer unrhyw ganolfan Addysg Uwch newydd yng Nghonwy unwaith y ceir cytundeb ar bwrpas a natur y ganolfan, a natur y bartneriaeth y tu ôl iddi. Po fwyaf cyffrous y mae prosiect yn ymddangos, y mwyaf o gyfle sydd yna i ddenu cyllid o ffynonellau eraill, ac ar raddfa fwy. Serch hynny, mae rhai nodweddion allweddol yn glir.

- 6.48 Y norm ar gyfer prosiectau o'r math hwn yw bod yna "gymysgedd" o gyllid, gyda chyfraniadau o nifer o ffynonellau. Yn dibynnu ar natur y bartneriaeth (sydd yn ei dro yn llifo o bwrpas a natur y ganolfan), byddai ffynonellau cyllid bron yn sicr yn cynnwys y canlynol:

- y sefydliad neu'r sefydliadau dan sylw;
- yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol dan sylw;
- rhywfaint o gyllid cenedlaethol drwy Lywodraeth Cymru neu ei hasiantaethau; a,
- Chronfeydd Strwythurol yr UE (nes i refferendwm yr UE ymyrryd).

- 6.49 Tynnwyd y rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cyfalaf AU yn ôl yn 2012. Erbyn hyn mae angen i brifysgolion fenthycu i wneud buddsoddiadau cyfalaf. Mae cyfrifon diweddaraf Prifysgol Bangor, er enghraifft, yn cyfeirio at "strategaeth gyffrous ac uchelgeisiol ar gyfer ein hystâd ... gyda chefnogaeth arian gan y Banc Buddsoddi Ewropeaidd" (ffynhonnell arall a allai gau ar ôl Brexit).

- 6.50 Yn yr un modd, yn ei Ddatganiadau Ariannol diweddaraf (Gorffennaf 2017), mae Grŵp Llandrillo Menai yn nodi hyn:
- Roedd cyfanswm y balansau a gadwyd mewn arian parod ac ar adnau tymor byr yn £12.4m ar ddiwedd y flwyddyn (2016: £11.5m) ac roedd balansau benthyciadau banc wedi gostwng i £1.66m (2016: £28m). Mae daliadau arian parod yn bwysig gan fod yn rhaid i'r Grŵp gyfrannu at gost prosiectau cyfalaf a wneir gyda Llywodraeth Cymru. Heb wargedion i gynhyrchu arian parod ni fyddai'r Grŵp yn gallu buddsoddi yn ei ystad. Er gwaethaf y diffyg a adroddwyd mae'r Grŵp yn parhau i gynhyrchu arian parod, gan ei alluogi i barhau i fuddsoddi mewn gwelliannau cyfalaf er budd dysgwyr.
- 6.51 Mae llawer o'r rhan fwyaf o gyllid prifysgolion bellach yn dod drwy ffioedd dysgu myfyrwyr, yn hytrach na thrwy grantiau canolog, ond mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru [HEFCW] yn cadw rhaglen grant flynyddol. Mae dyraniadau yn destun proses flynyddol (cwbllhawyd cyllideb 2017-18 yn gynnar ym mis Ionawr 2017), ac mae pob un o'r naw prifysgol yng Nghymru yn gymwys: felly ni ellir tybio llwyddiant. Mae HEFCW wedi amcangyfrif y gallai cyfanswm ei gyllid uniongyrchol ar gyfer 2018-19 fod yn £115m, er bod y mwyafrif helaeth o hwnnw eisoes (mewn gwirionedd) wedi ei wario i dalu costau rhedeg. Fel arwydd o raddfa'r arian sydd ar gael yn fwy rhydd, ar gyfer 2017-18, dyrannodd HEFCW £506,000 i "gynorthwyo'r cydweithio rhwng AU ac AB".
- 6.52 O ran yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, yn amlwg yn yr achos hwn CBSC fyddai'r awdurdod ac efallai awdurdodau cyfagos yn dibynnu ar natur unrhyw ganolfan arfaethedig.
- 6.53 Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi bod yn rhan ganolog o goctel ariannu o'r fath am fwy na chenchedlaeth, ond bydd penderfyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd [UE] yn golygu diwedd y cronfeydd hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd "Cronfa Ffyniant a Rennir" yn ei lle, ond y tu hwnt i'r cyhoeddiad hwnnw nid oes unrhyw wybodaeth bellach eto ar yr hyn y mae hynny'n ei olygu. Mae papur ymgynghori ar y gweill i'w gyhoeddi eleni, ond gall gwleidyddiaeth Brexit olygu ei fod yn cael ei ohirio tan ddiwedd 2019.
- 6.54 Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru [CLILC] ei phapur Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit. Dywed CLILC mai "un o brif flaenoriaethau Cymru yw deall y rheolau ymgysylltu ar gyfer cael gafael ar unrhyw arian newydd ar ôl Brexit". Mae'r Gymdeithas yn mynd ymlaen i ddweud:
- "Dylai unrhyw gronfeydd Strwythurol newydd yr UE gadw at yr egwyddorion allweddol sy'n sail i Bolisi Cydlyniant yr UE, h.y. partneriaeth, cyllid aml-flwyddyn ac yn bennaf ffocws ar feysydd o angen er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch parhaus rhwng perfformiad economaidd ardaloedd o angen ac ardaloedd o gyfle".
- 6.55 Mae'r sylwadau hyn yn dangos faint o waith sydd eto i'w wneud cyn bod natur y cyllid strwythurol ar ôl Brexit yn glir: mae hyd yn oed y nodweddion dylunio lefel uwch yn aneglur, megis a fydd trefniadau'n cael eu datganoli i Gymru o gwbl, a fydd dull yr UE o weithio tuag at "gydgyfeirio" ar gyfer ardaloedd tlotach yn parhau, ac a fydd rhaglenni aml-amcan, aml-flwyddyn yn parhau (fel nawr), wedi'u hategu gan bartneriaethau strategol.
- 6.56 Gyda gwleidyddiaeth Brexit mewn fflwcs o'r fath, nid yw'n glir o gwbl pryd y bydd trefniadau ar gyfer cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit yn cyrraedd y cam pan y gall CBSC a'i bartneriaid ddechrau cynllunio.
- 6.57 Mae yna nifer o oblygiadau sy'n deillio o ddefnyddio arian 'coctel'. Y prif egwyddor yw bod angen i hyrwyddwyr y prosiect adeiladu clymblaid o ddiddordeb, lle mae pob partner yn ddigon ymroddedig a brwdfrydig bod eu cyfran nhw o'r cyllid yn ennill y gystadleuaeth fewnol am gymorth, fel y gall partneriaid gefnogi prospectws cyffredin. Efallai na fydd cystadleuaeth

ffurfiol, ond mewn gwirionedd mae bob amser cystadleuaeth oherwydd bod nifer y prosiectau apelgar bob amser yn fwy na'r arian sydd ar gael. Mae hynny felly'n rhoi premiwm ar adeiladu achos cadarn dros fuddsoddi, wedi'i brofi'n drwyadl yn erbyn yr holl egwyddorion arferol o werth am arian sy'n cael eu cymhwyso yn y DU, sydd yn y pen draw yn deillio o reolau'r Trysorlys.

Casgliad

- 6.58 Nid yw'n ymrwymiad bach i ennill cefnogaeth ar gyfer canolfan Addysg Uwch newydd, a'r arian sydd ei angen yn gyntaf i'w hadeiladu, yna i'w chynnal dros y tymor hir. Mae angen achos cryf, gyda thystiolaeth gefnogol gref y byddai unrhyw ganolfan newydd naill ai'n datrys problem bresennol fawr neu'n creu budd newydd sylweddol. Byddai angen i achos llwyddiannus esbonio pa angen neu gyfle sydd ddim yn cael eu diwallu gan unrhyw un o'r tri darparwr Addysg Uwch presennol, naill ai'n unigol neu mewn partneriaeth, neu gan Ganolfan y Brifysgol bresennol yn Llandrillo.
- 6.59 Gall fod yn arwyddocaol nad oedd yr un o'r tri chyfwelai erioed wedi bod yn rhan o drafodaeth gyda chydweithwyr CBSC am y posibilrwydd o ganolfan AU newydd yng Nghonwy, nac yn gwybod am unrhyw drafodaeth o'r fath gydag unrhyw un o'u cydweithwyr. Mynegodd pawb baroddrwydd i siarad â'r Cyngor, i ddeall pa bryderon - neu obeithion - oedd wedi arwain at yr awgrym o ganolfan Addysg Uwch newydd yng Nghonwy, ac i weld beth y gellid ei wneud yn eu cylch. Nododd pob un fod llawer o le i ddefnyddio'r cyfleusterau presennol yn wahanol, os oes achos busnes dros wneud hynny, yn hytrach na cheisio creu unrhyw beth newydd.

7.0

Alinio Galw a Chyflenwad Sgiliau

7.1

Mae sylfaen dystiolaeth newydd CBSC yn glir ar y sectorau twf allweddol a fydd yn hwyluso twf economaidd yn y dyfodol ar gyfer economi'r Sir. Elfen allweddol o'r adroddiad Asesiad Anghenion Sgiliau hwn yw ystyried y cydchwarae rhwng cyflenwad sgiliau a gofynion galw yn y dyfodol.

7.2

Mae'r adran hon yn asesu'r galw am sgiliau a gynhyrchir gan y sectorau twf allweddol a phrosiectau datblygu yn erbyn y cyrsiau a gynigir gan gyfleusterau addysgol presennol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r sectorau twf allweddol yn cynnwys:

- Ynni a'r Amgylchedd;
- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch;
- Adeiladu;
- Creadigol a Digidol;
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Twristiaeth a Lletygarwch; a,
- Bwyd a Diod.

Ynni a'r Amgylchedd

Sefyllfa bresennol

7.3

Yn ôl CBSC, mae'r sector Ynni a'r Amgylchedd yn ysgogwr allweddol a bwriedir iddo greu twf yn y dyfodol. Bydd twf economaidd yn y sector hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni, technolegau carbon isel a phrosesu. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu a'r busnesau allu manteisio ar gyfleoedd posibl y gadwyn gyflenwi a allai godi o nifer o'r prosiectau trawsnewidiol mawr yn y sector hwn, yn enwedig Morlyn Llanw Bae Colwyn a Chanolfan Ynni Wrecsam.

7.4

Yn ôl Llywodraeth Cymru, roedd sector Ynni ac Amgylchedd Conwy yn cyflogi 4,900 o bobl yn 2017 ac yn cyfrif am 14% o swyddi Gogledd Cymru yn sector⁴¹ y rhanbarth. Mae Tabl 7.1 yn nodi maint y cwmnïau ar draws Gogledd Cymru, mae gan Conwy 11 o gwmnïau sydd wedi'u nodi yn y sector Ynni a'r Amgylchedd, sef y ffigur isaf allan o holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Tabl 7.1 Maint Cwmnïau yn y Sector Ynni ac Amgylcheddol yng Ngogledd Cymru (2016)

Ardal	Micro (0-9)	Bach (10-49)	Canolig (50-249)	Mawr (250+)	Cyfanswm
Ynys Môn	24	6	1	3	33
Gwynedd	9	9	3	0	21
Conwy	3	5	2	1	11
Sir Ddinbych	11	10	0	1	22
Sir y Fflint	9	17	11	2	39
Wrecsam	10	6	4	3	23

Ffynhonnell: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru / Cyfeiriadur Busnes Ynni ac Amgylcheddol 2016

7.5

Mae'n bwysig nodi bod anawsterau wrth ddiffinio set sgiliau bresennol Conwy a'r rhanbarth ehangach i fodloni gofynion y sector Ynni a'r Amgylchedd yn y dyfodol. Cydnabuwyd hyn yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol NWEAB (2017) a nododd:

⁴¹ Llywodraeth Cymru (2018): Ystadegau'r Sector Blaenoriaethol, 2017 (Is-Gymru)

“Oherwydd natur codau SIC traws-ddiwydiant sy'n cynrychioli'r sector ynni a'r amgylchedd, nid yw'n bosibl cael dadansoddiad manwl o alwedigaethau ar wahanol lefelau gan fod y sector hwn yn cynrychioli sectorau cod 3 SIC - ynni a dŵr, adeiladu a gweithgynhyrchu” [Tudalen 2]

- 7.6 Mae hyn yn dangos y frwydr wrth nodi gwir nifer y gweithwyr â sgiliau priodol yn y sector hwn, yn arbennig, gan fod gan nifer o'r sectorau hyn sgiliau trosglwyddadwy. Fodd bynnag, bydd prosiectau trawsnewid mawr (yn y sectorau ynni a'r amgylchedd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ledled rhanbarth ehangach Gogledd Cymru gydweithio i ddarparu'r cyflenwad llafur lleol i ateb y galw. Mae nifer o'r prosiectau mawr sy'n cael eu cwblhau / yn cael eu hadeiladu neu eu cynnig yn cynnwys:
- Morlyn Llanw Bae Colwyn;
 - Dong Energy;
 - Estyniad Campws Llangefni Grŵp Llandrillo Menai;
 - M-Sparc;
 - Minesto;
 - Parc Adfer Glannau Dyfrdwy;
 - RWE Innology; a,
 - Canolfan Ynni Wrecsam.
- 7.7 Byddai mwyafrif y prosiectau hyn yn gofyn am sgiliau gan ystod o gontractwyr, peirianwyr a rheolwyr prosiect medrus. Er gwaethaf y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn sy'n digwydd y tu allan i Gonwy, byddai'r pwyslais ar ranbarth ehangach Gogledd Cymru i ateb y gofynion a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r prosiectau hyn, ac mae'n amlwg y byddai gan Gonwy rôl i'w chwarae.
- 7.8 Mae Sir Conwy hefyd yn debygol o elwa o gyfleoedd cadwyn gyflenwi sy'n debygol o ddeillio o'r prosiectau mawr hyn ar draws Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd 200 o gwmnïau o Gogledd Cymru yn rhan o raglen cadwyn gyflenwi Morlyn Llanw Bae Colwyn.
- 7.9 O ran y cyflenwad sgiliau, mae'n amlwg o drafodaethau gyda datblygwyr allweddol a rhanddeiliaid bod prinder sgiliau ar gyfer rhai galwedigaethau yn y rhanbarth ehangach. O fewn y sector Ynni a'r Amgylchedd, mae pryderon yn gysylltiedig â chymwysterau ac arbenigedd technegol STEM. Mae hyn wedi cael ei gyflymu gan weithlu sy'n heneiddio a gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Bwlch / Gwarged Sgiliau

- 7.10 Tynnwyd sylw eisoes at yr anhawster o nodi lefelau cyflogaeth a chymwysterau ar gyfer y sector Ynni a'r Amgylchedd yng Nghonwy ac ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae Working Futures Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau [UKCES] wedi cynhyrchu rhagamcanion y farchnad lafur ar gyfer y cyfnod 2014 i 2024. Mae Working Futures yn ystyried patrymau cyflogaeth a chynhyrchiant o ran y duedd hanesyddol a'r rhagamcanion ar gyfer twf a dirywiad diwydiannau a galwedigaethau, a'r goblygiadau i sgiliau.
- 7.11 Yn ôl Working Futures 2014-2024, mae angen y sector ynni ac amgylchedd am staff â chymwysterau uwch wedi symud dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n debygol o barhau â'r duedd hon yn y blynyddoedd i ddod. Ers 1994 bu cynnydd yn yr angen am alwedigaethau o fath SOC 1 (fel rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr proffesiynol cyswllt) yn y sector Ynni a'r Amgylchedd ar draws Gogledd Cymru.

Tabl 7.2 Newidiadau i % y gyflogaeth yn ôl lefelau yn y Sector Ynni a'r Amgylchedd yng Ngogledd Cymru (2014-2024)

	Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion (SOC1)	Galwedigaethau Proffesiynol (SOC2)	Galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiol a Thechnegol (SOC3)	Galwedigaethau Crefftau Medrus (SOC5)	Gweithredwyr Posesau a Pheiriannau (SOC8)
2014	7.5%	12.3%	9.8%	33.1%	9.7%
2019	8.3%	13.5%	10.5%	32.2%	8.9%
2024	8.7%	13.9%	10.7%	32.1%	8.7%
Newid Net	+26.5%	+23.3%	+20.4%	+6.3%	-2.5%
Galw amnewid	40.6%	38.8%	35.8%	33.5%	32.1%
Cyfanswm y Galw sydd ei Angen	67.1%	62.0%	56.2%	39.9%	29.6%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures 2014-2024 / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

- 7.12 Mae Tabl 7.2 yn dangos y newid mewn lefelau cyflogaeth yn y sector ynni a'r amgylchedd o 2004 i 2024 ar draws Gogledd Cymru. Mae cyfansoddiad newidiol galwedigaethau yn y sector ynni a'r amgylchedd o 2014 hyd at 2024 yn dangos cynnydd sylweddol yn y galw am bedwar o'r pum galwedigaeth yn y sector. Mae hyn yn awgrymu, yn y dyfodol, y disgwylir i alwedigaethau sydd angen cymwysterau arbenigol a lefel uwch fod mewn galw uwch yn y sector.
- 7.13 Mae rhagamcanion Working Futures yn ystyried 'galw amnewid' sy'n cael ei ddiffinio fel 'y cyfleoedd swyddi a grëwyd gan all-lif gweithwyr o'r gweithlu'. Mae hyn yn ymwneud yn gyffredinol â gweithwyr sy'n gadael y farchnad lafur oherwydd amrywiaeth o resymau parhaol a dros dro. Fel y dangosir yn Nhabl 7.2, disgwylir i bob un o'r pum math o alwedigaeth gynyddu mewn lefelau cyflogaeth rhwng 2014 a 2024. Yn y pen draw, bydd galw newydd yn y sector yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfanswm y galw am alwedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r sector.
- 7.14 Mae galw amnewid yn golygu bod y galwedigaethau hyn yn gofyn am weithwyr ychwanegol ar ben y swyddi hynny sy'n cael eu disodli. Rhagwelir y bydd galw amnewid cryf o 40.6% ar gyfer galwedigaethau o fath SOC 1 (rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion) rhwng 2 a 14 i 2024. Disgwylir i'r pum math o alwedigaeth weld galw amnewid yn cynyddu mwy na 30%. Er bod y setiau data hyn yn canolbwyntio ar Ogledd Cymru, bydd llawer o'r prif brosiectau allweddol yn y sector Ynni a'r Amgylchedd angen cyflenwad llafur yn y dyfodol o Gonwy ac awdurdodau lleol cyfagos.
- 7.15 Mae amcanestyniadau diweddaraf Working Futures hefyd yn canolbwyntio ar y lefelau cymwysterau ffurfiol ar gyfer diffinio a mesur sgiliau yn y farchnad lafur. Fel rhan o Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol NWEAB 2017, dadansoddwyd proffil cymwysterau cyflogaeth yn y dyfodol ar gyfer y sector ynni ac amgylchedd yng Ngogledd Cymru. Mae rhagamcanion Working Futures yn seiliedig ar y lefelau cymhwyster canlynol:
- Dim Cymhwyster
 - Lefel 1: TGAU (graddau D-G) / BTEC dyfarniad, tystysgrif a diploma lefel 1;
 - Lefel 2: : TGAU (graddau A*-C) / NVQ lefel 2;
 - Lefel 3: Safon UG a Safon Uwch / BTEC Cenedlaethol;
 - Lefel 4-6: Tystysgrif Addysg Uwch (Lefel 4) / Gradd Sylfaen (Lefel 5) / gradd Baglor (Lefel 6); a,

- Lefel 7-8: Gradd Meistr (Lefel 7) / Doethuriaeth (Lefel 8).

7.16

Fel y dangosir yn Nhabl 7.3, rhagwelir y bydd cyflenwad llafur y dyfodol gyda chymwysterau Lefelau 4-6 a 7-8 yn cynyddu ar draws Gogledd Cymru 57.6% a 32.5% yn y drefn honno rhwng 2014 a 2024. Mae hyn yn dangos ei bod yn debygol y bydd angen cynyddol ar gyfer gweithwyr â lefelau cymhwyster uwch.

Tabl 7.3 Goblygiadau ar gyfer cymwysterau yn ôl lefelau sy'n ofynnol yn Sector Ynni ac Amgylchedd Gogledd Cymru

	% cyfran 2014	% cyfran 2024	% newid 2014-2024	Cyfran Galw Amnewid %
Lefelau QCF 7-8	6.1%	7.4%	32.5%	6.1%
Lefelau QCF 4-6	26.1%	37.6%	57.6%	26.1%
Lefel QCF 3	19.3%	17.0%	-3.9%	19.3%
Lefel QCF 2	21.3%	21.3%	9.4%	21.3%
Lefel QCF 1	15.8%	12.6%	-13.1%	15.8%
Dim Cymhwyster	11.3%	4.1%	-60.3%	11.3%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	9.4%	100.0%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures 2014-2024 / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Camau nesaf

7.17

Eglurodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid addysg a busnes yn y sector Ynni a'r Amgylchedd fod galw yn y dyfodol am weithlu mwy medrus yn y sector. Bydd hyn yn cael ei ysgogi gan brosiectau trawsnewidiol allweddol sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru ac ymddeoliad llawer o staff cymwys iawn yn y sector hwn.

7.18

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r datblygwyr allweddol wedi bod yn rhagweithiol yn adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau addysg presennol i wella sgiliau penodol gweithlu presennol Gogledd Cymru. Felly mae perygl y gallai cyfleuster Addysg Uwch newydd yng Nghonwy godi'r mater o 'ddyblu' ar gyrsiau perthnasol yn y sector Amgylchedd ac Ynni. Er enghraifft, mae nifer o gyrsiau gradd eisoes yn cael eu darparu gan brifysgolion Bangor a Glyndŵr Wrecsam sy'n cynnwys:

- Gwyddor Amgylcheddol BSc (Anrh) - Prifysgol Bangor;
- Astudiaethau Amgylcheddol Morol BSc (Anrh) - Prifysgol Bangor;
- Bioleg Forol BSc (Anrh) - Prifysgol Bangor;
- BSc Gwyddorau Eigion (Anrh) - Prifysgol Bangor; a,
- BEng (Anrh) Peirianeg Adnewyddadwy a Chynaliadwy - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

7.19

Fel y dangosir uchod, dyma rai o'r cyrsiau sydd ar gael yn y ddwy brifysgol i ddarparu ar gyfer y galw am sgiliau yn y dyfodol yn y sector Ynni a'r Amgylchedd. Mae'n amlwg bod Prifysgol Bangor yn fwy cymwys i ddarparu cyrsiau sy'n gysylltiedig â'r sector i wella sgiliau gweithlu'r Sir a Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Sefyllfa bresennol

7.20

Yn ôl data Llywodraeth Cymru, roedd y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yn cyflogi 800 o bobl yn uniongyrchol yng Ngogledd Cymru yn 2017, a oedd yn cyfrif am 4% o swyddi Gogledd Cymru o fewn y sector. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r sector hwn wedi'i

gynrychioli'n dda yng Nghonwy; rhwng 2012 a 2017, roedd nifer y gweithwyr wedi gostwng 300 (-27%) yn Sir Conwy, cwymp mwy serth na Gogledd Cymru (+10%) neu Cymru (-1%) yn gyffredinol⁴².

- 7.21 Yn ôl cyfeiriadur Gweithgynhyrchu Uwch NWEAB, mae'r prif gyflogwyr yng Nghonwy yn y sector hwn yn cynnwys: A2B Plastics Ltd; Castle Diamond Technology; Consort Precision Diamond Ltd; Danline International Ltd; a, Prism Medical UK.
- 7.22 Yn 2016, cyhoeddodd NWEAB eu Cyfeirlyfr Busnes Gweithgynhyrchu Uwch diweddaraf ar gyfer Gogledd Cymru, a nododd dros 153 o fusnesau yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ar draws Gogledd Cymru. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys busnesau sydd wedi'u lleoli mewn tri Parth Menter (nid oes yr un ohonynt yng Nghonwy ar hyn o bryd) ar draws Gogledd Cymru⁴³. Mae llawer o brif sylwebiadau'r sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch wedi'u lleoli y tu allan i Sir Conwy, yn arbennig:
- Parth Menter Glannau Dyfrdwy;
 - Porth y Gogledd;
 - Parc Diwydiannol Wrecsam;
 - Parc Busnes Llanelwy;
 - Parc Bryn Cegin, Bangor; a,
 - Parc Cybi, Caergybi.
- 7.23 Mae'r lleoliadau hyn eisoes yn sefydlu enw da am glystyru cwmnïau gweithgynhyrchu uwch. Nid oes yr un o'r safleoedd cyflogaeth allweddol hyn wedi'u lleoli yng Nghonwy, fodd bynnag, mae manteision amlwg i Gonwy drwy'r manteision ehangach yn y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd cyflogaeth.
- 7.24 Mae Tabl 7.4 yn nodi maint cwmnïau gweithgynhyrchu ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Fel y dangosir yn Nhabl 7.4, microfusnesau sy'n dominyddu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghonwy, sef 84% o'r holl gwmnïau gweithgynhyrchu o fewn sector yn y Sir.

Tabl 7.4 Maint Cwmnïau yn y Sector Gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru (2018)

Ardal	Micro (0 i 9)	Bach (10 i 49)	Canolig (50 i 249)	Mawr (250+)	Cyfanswm
Ynys Môn	90	20	0	0	110
Conwy	155	25	5	0	185
Sir Ddinbych	155	30	5	0	190
Sir y Fflint	295	55	35	5	390
Gwynedd	195	30	10	0	235
Wrecsam	215	65	25	5	310

Ffynhonnell: Cofrestr Busnes Rhyngadrannol (ONS)

- 7.25 Gall goruchafiaeth cwmnïau llai yng Nghonwy ac awdurdodau eraill fod yn gysylltiedig â'r awtomeiddio cynyddol yn y sector hwn. Awgrymodd rhanddeiliaid fod prinder sgiliau critigol o hyd ar gyfer galwedigaethau STEM fel peirianwyr, gwyddonwyr a rolau technolegol.

⁴² Llywodraeth Cymru (2018): Ystadegau'r Sector Blaenoriaethol, 2017 (is-Gymru)

⁴³ <https://northwalesiab.co.uk/business-opportunities/business-directories>

Bwlch Sgiliau / Gwarged

- 7.26 Yn ôl ffigurau diweddaraf Working Futures, rhwng 2014 a 2024, rhagwelir y bydd angen cyflenwad llafur cymwys uwch ar y diwydiant. Mae Tabl 7.5 yn dangos y disgwylir i gyfran y galwedigaethau â sgiliau uwch (SOC1 a SOC2) godi. Fodd bynnag, mae'r sector yn debygol o brofi dirywiad yn yr angen am weithwyr o fewn galwedigaethau SOC3, SOC 5 a SOC8 dros yr un cyfnod. Mae hyn yn cael ei ddylanwadu gan gynydd a ragwelir mewn technolegau newydd a fydd yn gofyn am weithwyr â sgiliau uwch a all addasu i arloesi a newidiadau masnacheiddio sy'n debygol o effeithio ar y sector hynod gystadleuol hwn yn y dyfodol.
- 7.27 O ran galw amnewid, disgwylir y bydd y sector yn dioddef colled sylweddol o unigolion profiadol ar draws pob lefel oherwydd recriwtio.
- 7.28 Mae'r galw cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r sector yn debygol o gynyddu o 12% SOC8 i 39% ar gyfer rolau SOC1 erbyn 2024 gan ddangos yr angen hanfodol i fynd i'r afael â phrinder yn y dyfodol ar draws yr holl lefelau sgiliau yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.
- 7.29 Dywedodd rhanddeiliaid allweddol yn y sector gweithgynhyrchu fod heriau'n bodoli wrth hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o swyddi a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol ymhlith pobl ifanc. Mae hyn yn amlwg yn faes lle byddai gan CBSC rôl i'w chwarae wrth weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ac addysgol o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch.

Tabl 7.5 Newidiadau i ganran y lefelau cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru (2014-2024)

	Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion (SOC1)	Galwedigaethau Proffesiynol (SOC2)	Galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiol a Thechnegol (SOC3)	Galwedigaethau Crefftau Medrus (SOC5)	Gweithredwyr Prosesau a Pheiriannau (SOC8)
2014	6.5%	8.7%	7.8%	27.9%	35.0%
2019	7.2%	9.5%	8.4%	27.3%	32.9%
2024	7.5%	9.7%	8.5%	26.8%	32.8%
Newid Net	+2.8%	+0.4%	-2.7%	-14.3%	-16.4%
Galw Amnewid	35.9%	32.5%	32.5%	30.4%	28.3%
Cyfanswm y Galw sydd ei Angen	38.7%	32.9%	29.8%	16.1%	11.9%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures 2014-2024 / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017)

- 7.30 Roedd rhagamcanion diweddaraf Working Futures yn canolbwyntio ar y lefelau cymwysterau yn y dyfodol ar gyfer y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch. Mae'r proffil cymwysterau sy'n newid yn adlewyrchu ffactorau cyflenwad a galw; dim ond gweithwyr â lefelau cymhwyster 4-6 y mae disgwyl iddynt gynyddu rhwng 2014 a 2024.
- 7.31 Mae Tabl 7.6 yn dangos dirywiad net mewn gweithwyr ar bob lefel sgiliau ar wahân i lefelau cymhwyster 4-6 rhwng 2014 a 2024. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau yn y galw a'r cyflenwad a ragwelir dros y cyfnod o 10 mlynedd wedi cael ei wrthbwyso gan ddisodli'r gweithwyr presennol yn y sector y disgwylir iddynt ymddeol a gadael. Mae'r galw newydd am bob lefel cymhwyster yn y sector yn sicrhau y gallwn barhau i ddisgwyl agoriadau o ran swyddi ar draws yr holl lefelau cymhwyster.

Tabl 7.6 Goblygiadau ar gyfer cymwysterau yn ôl lefelau sy'n ofynnol o fewn y sector gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru (2014-2024)

	% cyfran 2014	% cyfran 2024	% newid 2014-2024	Cyfran Galw Amnewid %
Lefelau QCF 7-8	4.6%	5.0%	-3.0%	4.6%
Lefelau QCF 4-6	19.9%	30.8%	38.3%	19.9%
Lefel QCF 3	25.0%	23.0%	-18.2%	25.0%
Lefel QCF 2	23.4%	25.0%	-4.7%	23.4%
Lefel QCF 1	17.1%	13.7%	-28.5%	17.1%
Dim Cymhwyster	10.0%	2.6%	-77.0%	10.0%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	-10.7%	100.0%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures 2014-2024 / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017)

Camau nesaf

- 7.32 Yn ystod ein sgysiau gyda datblygwyr allweddol a darparwyr addysg, roedd yn amlwg bod heriau o ran ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith a chyflogaeth yn y dyfodol sy'n bodoli i bobl ifanc yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch. Yn yr un modd â'r sector ynni a'r amgylchedd, roedd llawer o'r prinder sgiliau gweithgynhyrchu yn gysylltiedig â'r galwedigaethau canlynol:
- Peirianeg;
 - Gwyddonwyr; a,
 - Galwedigaethau technolegydd.
- 7.33 Mae'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol gan weithwyr presennol a gweithwyr y dyfodol yn y sector yn cynnwys rheoli prosiectau, marchnata a sgiliau dylanwadol, yn enwedig ymhlith galwedigaethau medrus uwch.
- 7.34 Er bod nifer cyfyngedig o glystyrau cyflogaeth allweddol yn Sir Conwy ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu uwch - mae angen i CBSC gefnogi busnesau lleol i'w galluogi i ddeall a manteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi.
- 7.35 Ar yr ochr addysgol, bydd angen mwy o ymwybyddiaeth o brentisiaethau, hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer gweithlu presennol a dyfodol Conwy i lawr i lefel ysgol uwchradd. Dylai hyn arwain at CBSC yn cydweithio â darparwyr addysg presennol yn hytrach na sefydlu cyfleuster Addysg Uwch newydd.
- 7.36 O ran darpariaeth a chyflenwad addysg, mae'r rhanbarth wedi'i gyfarparu'n llawn â darpariaeth cyrsiau Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer y Sector Gweithgynhyrchu Uwch. Er enghraifft, mae 12.5% o'r cyrsiau a ddarperir yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn gysylltiedig â'r sector hwn gan ddangos bod nifer o gyrsiau Addysg Bellach ar gyfer y sector hwn. Mae'r ddwy brifysgol yng Ngogledd Cymru yn darparu cyrsiau gradd yn y meysydd pwnc canlynol (yn gysylltiedig â'r sector Gweithgynhyrchu Uwch):
- Peirianeg Systemau Trydanol / Cyfrifiadurol - Prifysgol Bangor;
 - Peirianeg Awyrennol a Mecanyddol - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam;
 - Peirianeg Fodurol - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam;
 - Dylunio - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam; a,
 - Pheirianeg Ddiwydiannol - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

- 7.37 Oherwydd y ddarpariaeth eang bresennol o gyrsiau sy'n ymwneud â Gweithgynhyrchu Uwch, argymhellir felly nad oes angen cyfleuster Addysg Uwch newydd i fodloni gofynion sgiliau'r sector hwn. Dylai CBSC ganolbwyntio eu hymdrechion i hyrwyddo llwybrau gyrfa yn y sector i bobl iau a phobl bosibl sydd â setiau sgiliau trosglwyddadwy o sectorau cysylltiedig eraill fel gweithgynhyrchu traddodiadol..

Adeiladu

Sefyllfa bresennol

- 7.38 Mae'r sector Adeiladu yn y Gogledd Orllewin yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar lawer o grefftau a phroffesiynau medrus ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau ac arbenigeddau. Caiff y proffesiynau a'r crefftau adeiladu traddodiadol eu cefnogi'n fawr gan swyddogaethau eraill o fewn y sector megis: gweinyddu, rheoli prosiectau, caffael, cyfreithiol, cyllid, syrfeo, marchnata, addysg, ymgysylltu â'r gymuned ac elfennau eraill yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r proffesiynau eraill hyn hefyd yn elfennau hanfodol o'r diwydiant Adeiladu yng Nghonwy, Gogledd Cymru a thu hwnt.
- 7.39 Yn ôl data Llywodraeth Cymru, roedd y sector Adeiladu yn cyflogi 3,800 o bobl yn Sir Conwy yn 2017 a oedd yn cyfrif am 15% o swyddi Gogledd Cymru yn y sector Adeiladu. Rhwng 2012 a 2017, cynyddodd nifer y gweithwyr adeiladu yng Nghonwy gan 600 o swyddi (+ 19%), mwy na dwbl ffigur Gogledd Cymru (+ 9%) a bron i bedair gwaith lefel y twf a brofwyd ledled Cymru (5%).
- 7.40 Mae Dadansoddiad Gweithle Arolwg Blynnyddol Poblogaeth [APS] diweddaraf 2018 yn dangos bod 1,300 o bobl wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau crefftau medrus, roedd 600 o bobl yn gweithio mewn rolau galwedigaethol elfennol yn y sector Adeiladu yn Sir Conwy⁴⁴.
- 7.41 Mae'r Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiannol Adeiladu [CITB] yn darparu data twf allbwn adeiladu. Rhwng 2018 a 2022, rhagwelir y bydd sector Adeiladu Cymru yn tyfu 4.6% sy'n sylweddol uwch na lefel y DU (1.3%). Mae twf allbwn adeiladu Cymru yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan brosiectau mawr. Ers 2016, mae gan Gonwy yn benodol nifer o brosiectau Adeiladu sydd wedi arwain at gynnydd yn y galw am weithwyr adeiladu yn y Sir. Mae'r prosiectau adeiladu hyn yn cynnwys:
- Ysbyty Gyffredinol Llandudno – Rhagolygon gwerth: £38.2 miliwn;
 - Gwaith Trin Dŵr (estyniad) - Rhagolygon gwerth: £19.6 miliwn;
 - Cytundeb Fframwaith Contractwyr – Rhagolygon gwerth: £75.0 miliwn;
 - Swyddfeydd y Cyngor – Rhagolygon gwerth: £11.9 miliwn;
 - Uwchraddio'r Orsaf Reilffordd – Rhagolygon gwerth: £28.1 miliwn;
 - Uned Adwerthu (Adnewyddu) – Rhagolygon gwerth: £4.0 miliwn;
 - Adeilad Swyddfa'r Cyngor a Maes Parcio Aml-lawr – Rhagolygon gwerth: £9.2 miliwn; a,
 - Ffordd (gwelliannau) – Rhagolygon gwerth: £23.2 miliwn.⁴⁵
- 7.42 Mae'r prosiectau adeiladu hyn yng Nghonwy yn rhan o raglen o brosiectau a gynlluniwyd sy'n werth tua £22.3 biliwn ar draws Gogledd Cymru. Mae'r holl brosiectau hyn naill ai wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn 2025⁴⁶.

⁴⁴ ONS (2018) Dadansoddiad Gweithle Arolwg Poblogaeth Blynnyddol (Gorffennaf 2017 - Mehefin 2018)

⁴⁵ Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2017): Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017 Atodiad 2

⁴⁶ Ibid

7.43

Mae Tabl 7.7 yn dangos y bydd angen cynyddol am lefelau sgiliau uwch yn y sector Adeiladu, yn enwedig ar lefel reoli (SoC1), tra mae'n debygol y bydd galw llai am grefftau medrus (SoC5) a gweithredwyr prosesu a pheiriannau (SoC8).

Tabl 7.7 Newidiadau i ganran y lefelau cyflogaeth yn y sector Adeiladu yng Ngogledd Cymru

	Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion (SOC1)	Galwedigaethau Proffesiynol (SOC2)	Galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiol a Thechnegol (SOC3)	Galwedigaethau Crefftau Medrus (SOC5)	Gweithredwyr Prosesau a Pheiriannau (SOC8)
2014	5.3%	6.2%	4.4%	62.6%	8.6%
2019	5.8%	6.8%	4.8%	62.2%	8.1%
2024	6.1%	7.1%	5.1%	61.8%	8.2%
Newid Net	+25.8%	+24.2%	+23.7%	+7.4%	+3.3%
Galw Amnewid	40.2%	36.7%	37.9%	33.9%	32.4%
Cyfanswm y Galw sydd ei Angen	66.1%	61.0%	61.6%	41.2%	35.7%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

7.44

Mae Tabl 7.8 yn dangos cynnydd o 76.0% mewn gweithwyr adeiladu gyda chyraeddiadau lefelau cymhwyster o 4-6 rhwng 2014 a 2024. A disgwylir i weithwyr adeiladu heb unnrhyw gymwysterau ostwng bron i 70% dros yr un cyfnod.

7.45

Mae'r galw amnewid ar gyfer yr holl lefelau cymhwyster (8.9%) yn y sector yn amlwg, sy'n golygu y gallwn barhau i ddisgwyl cyfleoedd swyddi ar draws yr holl lefelau cymhwyster erbyn 2024 a ysgogir gan weithwyr â chymwysterau uwch a rhai sy'n gadael.

Tabl 7.8 Goblygiadau ar gyfer cymwysterau yn ôl y lefelau sy'n ofynnol yn y sector Adeiladu yng Ngogledd Cymru

	% cyfran 2014	% cyfran 2024	% newid 2014-2024	Cyfran Galw Amnewid %
Lefelau QCF 7-8	3.0%	3.6%	32.8%	3.0%
Lefelau QCF 4-6	15.3%	24.7%	76.0%	15.3%
Lefel QCF 3	32.4%	26.7%	-10.2%	32.4%
Lefel QCF 2	26.5%	30.0%	23.3%	26.5%
Lefel QCF 1	14.6%	12.6%	-6.0%	14.6%
Dim Cymhwyster	8.3%	2.4%	-68.8%	8.3%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	8.9%	100.0%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Working Futures / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Camau nesaf

7.46

Mae gan GLIM gampysau ledled Gogledd Cymru sydd eisoes yn darparu cyrsiau crefft adeiladu. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn darparu cymwysterau NVQ lefel 4+ ar gyfer rolau adeiladu proffesiynol fel syrfewyr meintiau ac adeiladau - er gwaethaf darparu cyrsiau gradd ar gyfer peirianeg sifil a rheoli adeiladu masnachol.

7.47

Dylai CBSC ganolbwyntio ar gadw a pharhau i ddatblygu sylfaen sgiliau a gweithlu lleol a fydd yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu creu yng Nghonwy ac ar draws Gogledd Cymru.

7.48 Fel yr amlygwyd yn Nhabl 7.7, disgwylir i gyfanswm y galw am alwedigaethau cysylltiedig â sgiliau uwch (SOC 1 - SOC3) gynyddu 61% rhwng 2014 a 2024. Felly, awgrymir y dylai CBSC weithio gyda GLIM i ehangu nifer cyrsiau sy'n cynnig cymhwyster sy'n gysylltiedig ag adeiladu lefel 4-6, fel cyrsiau syrfewyr a rheoli prosiectau a chostau.

7.49 Mae hefyd yn bwysig bod CBSC yn cydnabod yr angen i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd a chyflogwyr i hyrwyddo a gwella setiau sgiliau sy'n berthnasol i lwybrau gyrfa yn y sector Adeiladu.

Creadigol a Digidol

7.50 Mae'r sector Creadigol a Digidol yn gyflogwr twf arloesi yng Nghonwy a Gogledd Cymru ac mae wedi'i nodi gan CBSC a Llywodraeth Cymru fel sector blaenoriaeth. Mae'r sector hwn yn seiliedig ar greadigrwydd, sgiliau a thalent ac mae'n un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Cymru a ledled y DU.

7.51 Yn ôl Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol NWEAB (2017), mae'r sector hwn yn cynnwys marchnad lafur hynod gymwysedig, gyda 68% o'r gweithlu yn meddu ar gymhwyster gradd⁴⁷ o leiaf. At hynny, nododd yr NWEAB nifer o ystadegau allweddol gan gynnwys:

- Cefnogir 10,800 o swyddi gan y sector ar draws Gogledd Cymru;
- Yr enillion wythnosol cyfartalog yn y sector yw £ 711 ar draws Gogledd Cymru, sy'n sylweddol uwch na'r enillion wythnosol rhanbarthol ar gyfer pob sector; a,
- Mae 1,160 o fentrau Creadigol a Digidol ar draws y sector yng Ngogledd Cymru..

Bwlch Sgiliau / Gwarged

